Uned **Atal** Trais
Violence **Prevention** Unit

# Uned Atal Trais Cymru: Adroddiad Gwerthuso Systemau Cyfan 2020/21

Mehefin 2021

# Uned Atal Trais Cymru: Adroddiad Gwerthuso Systemau Cyfan (2020/21)

Hannah Timpson, Beccy Harrison, Nadia Butler a Zara Quigg

Sefydliad Iechyd y Cyhoedd (PHI)
*Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Atal Trais*
Prifysgol John Moores Lerpwl (LJMU)
Exchange Station
Lerpwl, L2 2QP

Mehefin 2021

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

De Cymru yw un o'r 18 o ardaloedd y dyrannwyd cyllid iddynt gan Lywodraeth y DU i sefydlu Uned Lleihau Trais. Gyda chefnogaeth ymrwymiadau ychwanegol gan bartneriaid yng Nghymru, sefydlwyd Uned Atal Trais (VPU) Cymru yn 2019. Er mwyn llywio datblygiad parhaus VPU Cymru, ym mis Ionawr 2020 (a mis Medi 2020), comisiynwyd Sefydliad Iechyd y Cyhoedd, LJMU, i gefnogi datblygu fframwaith gwerthuso VPU Cymru, a gwerthuso'r Uned yn ei chyfanrwydd, a rhaglenni gwaith dethol. Mae'r adroddiad hwn yn un o gyfres o allbynnau rhaglen waith y gwerthusiad hwn, ac mae'n cyflwyno gwerthusiad o ddull system gyfan. Mae'r holl allbynnau gwerthuso ar gael ar wefan VPU: https://www.violencepreventionwales.co.uk/

## Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r bobl a'r sefydliadau canlynol am gefnogi gwerthusiad VPU Cymru:

- Cyllidwyr y gwerthusiad, VPU Cymru.
- Aelodau o dîm VPU Cymru, partneriaid ehangach a gweithredwyr rhaglenni a gefnogodd y gwerthusiad.
- Holl gyfranogwyr yr astudiaeth a gymerodd ran mewn cyfweliadau a gweithdai rhanddeiliaid.
- Cydweithwyr o Iechyd Cyhoeddus Cymru am roi cyngor ar ddatblygu astudiaethau a chydweithwyr o PHI am gefnogi'r astudiaethau a chynhyrchu adroddiadau.

# Crynodeb

Yn 2019, cafodd Heddlu De Cymru gyllid gan y Swyddfa Gartref i sefydlu uned lleihau trais a oedd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â thrais difrifol. Mae VPU Cymru wedi sefydlu model cyflawni sy'n ceisio datblygu dull system gyfan o atal trais ledled Cymru, drwy integreiddio pedair elfen allweddol: Ymwybodol, Eiriol, Cynorthwyo a Mabwysiadu. Mae aelodaeth VPU yn cynnwys ystod o aelodau craidd, aelodau cyswllt, darparwyr a chomisiynwyr i gydlynu a rheoli ymateb systemau cyfan i atal trais. Mae aelodau VPU yn gweithredu o fewn un o dri maes cyflawni:

- **Iechyd y Cyhoedd** (sy'n cynnwys cadw gwyliadwriaeth ar drais, ymchwil, gwerthuso, dysgu a rhannu gwybodaeth, ac eiriol dros ddull iechyd y cyhoedd o atal trais);
- **Partneriaethau** (sy'n cynnwys partneriaethau ar gyfer atal trais, comisiynu ymyriadau, sicrhau bod atal trais yn cael ei gynnwys ym mhob polisi, a llwybrau atgyfeirio/cefnogi a chydweithio amlasiantaeth);
- **Gweithrediadau** (sy'n cynnwys arweinyddiaeth dactegol a gweithredol, plismona a phartneriaid cyfiawnder troseddol a rhannu data gweithredol a gwybodaeth).

## Dull Systemau Cyfan o Atal Trais

Cyflwynodd y VPU ddull yn seiliedig ar le o fynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais; mae'r dull hwn yn cydnabod dylanwad penderfynyddion ehangach iechyd ar draws y cwrs bywyd ac yn darparu fframwaith i fynd i'r afael ag anghenion cymunedau ar draws poblogaethau. Mae ysgogi newid ar draws y system gyfan yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â materion iechyd y cyhoedd cymhleth, gan arwain at gyflwyno dulliau cydgysylltiedig a chydweithredol i sicrhau newid cadarnhaol parhaus. Cymysg yw'r dystiolaeth am y ffordd fwyaf effeithiol o weithredu dull systemau cyfan, yn bennaf oherwydd cymhlethdodau ar draws systemau ac anghysondebau yn y fframweithiau a ddefnyddir i gymhwyso'r rhain. Mae tystiolaeth wedi nodi deg nodwedd allweddol sy'n perthyn i ddull yn seiliedig ar systemau o fynd i'r afael â phroblemau iechyd y cyhoedd, sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd datblygu perthnasoedd, ymgysylltu â rhanddeiliaid, sicrhau arweinyddiaeth gefnogol a chael dull gweithredu cadarn a chynaliadwy. Defnyddiwyd y fframwaith hwn i asesu cynnydd y VPU tuag at ddull system gyfan, a nodi bylchau ac argymhellion.

## Gwerthusiad

Comisiynwyd Sefydliad Iechyd y Cyhoedd (PHI), Prifysgol John Moores Lerpwl, i gynnal gwerthusiad o ddull iechyd y cyhoedd system gyfan VPU Cymru o atal trais (yn ystod 2020/21). Nod y gwerthusiad

**Prif Nodau'r Gwerthusiad**

1. Archwilio'r dull system gyfan o ddatblygu a gweithredu rhaglen waith VPU Cymru er 2019/20;
2. Gwerthuso datblygiad, gweithrediad a chanlyniadau System Dadansoddi Gwyliadwriaeth Trais Cymru (WVSAS);
3. Sefydlu ac ymgorffori systemau monitro a gwerthuso arferol, i lywio gwaith monitro a gwerthuso tymor byr, tymor canolig a thymor hir y VPU a rhaglenni gwaith cysylltiedig (gan arwain at ddatblygu a chyhoeddi Pecyn Cymorth Gwerthuso Atal Trais [VPET]).

oedd adeiladu ar werthusiad Blwyddyn 1 a oedd yn canolbwyntio ar agweddau gweithredol y VPU yn ystod 2019/20[1].

Roedd y fethodoleg yn cynnwys pedwar dull gwerthuso systemau a hyrwyddir yn y llenyddiaeth, gan gynnwys: **ymchwil fanwl drwy lens systemau** (samplu cyfranogwyr o wahanol rannau o'r system, archwilio effaith y VPU ar berthnasoedd a newid, a sut mae gwahanol rannau o'r system yn effeithio ar ei gilydd); **addasu dulliau gwerthuso traddodiadol gan ddefnyddio persbectif systemau** (ymchwilio i hwyluswyr newid ymddygiad, rhwystrau, a heriau, a chasglu tystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio'n dda, i bwy ac o dan ba amgylchiadau); **mapio cysyniadau a systemau** (deall problemau, heriau ac atebion drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid); a **dadansoddiad o'r rhwydwaith** (ymgysylltu â rhanddeiliaid i fapio sut mae gwahanol bobl neu sefydliadau yn cysylltu â'i gilydd i nodi dylanwadwyr allweddol/achosion o weithio mewn seilos o fewn rhwydwaith VPU Cymru). Roedd y dulliau gwerthuso'n cynnwys:

Cyfweliadau â phartneriaid VPU a rhanddeiliaid allweddol eraill
Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gyda 22 o gyfranogwyr a oedd yn cynrychioli ystod o aelodau craidd (amser llawn), aelodau cyswllt a phartneriaid ehangach ar draws 21 o sefydliadau.

Gwerthusiad o System Gwyliadwriaeth a Dadansoddi Trais Cymru (WVSAS) (adroddiad llawn ar gael ar wahân)

Cynhaliwyd arolwg ar-lein (n=50) i ymchwilio i ymwybyddiaeth, canfyddiadau a defnydd partneriaid y VPU o'r WVSAS (gan gynnwys adroddiadau monitro trais COVID-19).

Gweithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid
Cofnodwyd adborth a'r hyn a ddysgwyd o ddau ddigwyddiad rhanddeiliaid a hwyluswyd gan dîm gwerthuso PHI. Cyflwynodd un gweithdy y VPET i bartneriaid allweddol (n=27) sy'n ymwneud â chyflwyno a/neu ddarparu ymyriadau atal trais lleol, gan ddarparu cyflwyniad i'r pecyn cymorth a chefnogi partneriaid i ddatblygu amcanion gwerthuso a chynllun gwerthuso ar gyfer eu hymyrraeth. Cynhaliwyd ail weithdy gyda phartneriaid (n=34) i archwilio a nodi canlyniadau'r VPU, archwilio safbwyntiau ynglŷn â newid systemau a phrofiadau pobl o hynny a nodi mecanweithiau newid.

Adolygiad o ddogfennau cyflawni'r rhaglen
Adolygwyd dogfennau'n ymwneud â chyfeiriad strategol a chyflawni VPU Cymru.

## Canfyddiadau ac argymhellion

Mae'r VPU yn dylanwadu ar newid cynaliadwy drwy ymgorffori dull iechyd y cyhoedd o atal trais ar draws y system sy'n mynd y tu hwnt i rannu arferion gorau neu ledaenu tystiolaeth orau. Mae'n amlwg bod y VPU wedi buddsoddi adnoddau ac arbenigedd i sefydlu partneriaethau a rhwydweithiau effeithiol ar draws ystod o asiantaethau perthnasol. Mae'r VPU wedi arwain at lai o weithio mewn seilos, gwell cyfathrebu rhwng partneriaid a llai o ddyblygu ymdrech. Mae cyfeiriad y VPU o ran effeithiau tymor hwy a gwerth cymdeithasol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau atal trais yn amlwg. Mae canfyddiadau wedi'u mapio yn erbyn egwyddorion allweddol dull systemau cyfan i fynd i'r afael â phroblemau iechyd y cyhoedd i asesu cynnydd y VPU tuag at ddull system gyfan, a nodi bylchau ac argymhellion:

[1] Timpson H, Harrison R, Bigland C, Butler N, Quigg Z. (2020). Gwerthusiad o'r Uned Atal Trais. Canfyddiadau Blwyddyn 1 (2019/20). Sefydliad Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol John Moores Lerpwl.

**Adnabod system:** Mae ymwneud rhanddeiliaid â'r VPU yn rhan o system ehangach sy'n ymgorffori dull iechyd y cyhoedd o atal trais. Roedd y canfyddiadau'n adlewyrchu gwybodaeth a phrofiadau rhanddeiliaid o'r system yn Ne Cymru, yn hytrach nag ôl troed Cymru gyfan. Amlygwyd y ffaith bod sefydliadau'n cystadlu â sefydliadau eraill am gyllid fel her, ochr yn ochr â phryderon ynghylch cynaliadwyedd a phwysigrwydd sicrhau cyllid yn y dyfodol, a allai rwystro eu llesteirio rhag ymgysylltu'n llawn.

> *"Rwy'n credu ein bod ni eisoes wedi gwneud newid mawr o ran newid y system... rwy'n credu ein bod eisoes wedi llwyddo i gymryd camau breision yn y maes hwnnw".*

Argymhelliad: Annog sefydliadau gwirfoddol a chymunedol i ysgrifennu ceisiadau ar y cyd er mwyn lleihau'r teimladau o gystadleuaeth rhyngddynt.

**Meithrin gallu:** Mae model y VPU wedi creu ymwybyddiaeth o ddulliau iechyd y cyhoedd o atal trais yng Nghymru ac wedi cefnogi sefydliadau i fabwysiadu'r dull hwn.

> *"Mae'r twf yng ngwybodaeth yr uned wedi golygu ein bod wedi gallu cyflwyno gallu a chapasiti i feysydd gwaith eraill ac mae hynny wedi helpu i atal trais"*

Argymhelliad: Adeiladu ar y gallu presennol drwy gefnogi partneriaid i ddeall ardaloedd lleol a phwysigrwydd, er enghraifft, hunaniaeth ddiwylliannol a'r gwendidau sy'n gysylltiedig â hynny o ran pobl ifanc sy'n troseddu.

**Creadigrwydd ac arloesedd:** Mae'r VPU yn gweithio'n greadigol ac yn arloesol gyda phartneriaid i ddatblygu a gweithredu mentrau i atal trais. Er bod y VPU yn hwyluso rhwydweithiau a phartneriaethau â chymunedau, prin oedd y dystiolaeth o fecanweithiau i gefnogi dulliau creadigol neu arloesol i fynd i'r afael â materion ar lefelau lleol.

> *"Un o'r pethau a oedd yn wahanol iawn, iawn oedd ein bod wedi cael ymarfer o amgylch bwrdd fel tîm ar sut y byddem yn ymateb pe bai cynnydd mawr mewn troseddau cyllyll... roedd hynny'n beth da, oherwydd nid oedd llawer o ddarparwyr yn gwybod yn fanwl beth oedd y lleill yn ei wneud"*

Argymhelliad: Datblygu dull sy'n cael ei arwain gan le drwy wella ymgysylltiad â chymunedau (gan gynnwys grwpiau cymunedol, plant, pobl ifanc a theuluoedd) i nodi cyfleoedd i bersonoli gwasanaethau o fewn ardaloedd lle ceir problem. Canolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu dulliau newydd sy'n cyd-fynd ag anghenion ac asedau cymunedau.

**Perthynas** Mae'r VPU wedi bod yn rhagweithiol o ran cefnogi datblygu perthnasoedd effeithiol ar draws ystod o bartneriaid amlasiantaeth. Roedd aelodau nad oedd ganddynt berthnasoedd gwaith ag aelodau craidd cyn sefydlu'r VPU yn llai tebygol o feddu ar ddealltwriaeth lawn o fodel a dull gweithredu'r VPU. Nododd rhanddeiliaid fylchau ac awgrymu asiantaethau y gellid eu cynnwys fel aelodau cyswllt neu bartneriaid VPU.

> *"Yn ein profiad ni, anaml y mae sefydliadau'n cael eu dwyn ynghyd, yn enwedig o ran trefnu cyfarfodydd sy'n dwyn ynghyd ystod o bartneriaethau, gyda ffocws ar y gymuned a'r sector gwirfoddol, a hyrwyddwyr cymunedol"*

Argymhellion: Adolygu a diffinio aelodaeth o'r VPU. Cynnwys cynrychiolaeth o asiantaethau ehangach a sicrhau bod gan bob aelod craidd a chysylltiedig rôl ddiffiniedig o ran eu cyfrifoldeb o fewn y VPU.

**Ymgysylltu** Amlygwyd pocedi o arfer da mewn perthynas ag ymgysylltu â'r gymuned. Prin oedd y dystiolaeth am y ffyrdd y mae pobl, sefydliadau

> *Symud y tu hwnt i 'ddull sy'n seiliedig ar le' tuag at 'ddull sy'n cael ei arwain gan le'*

a sectorau yn ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned wrth ddatblygu a darparu rhaglenni.

**Argymhellion: Gweithio gyda chymunedau lleol i gyd-gynhyrchu ymyriadau atal trais, gan roi'r gorau i'r dull 'o'r brig i lawr' er mwyn ymgysylltu'n fwy cydweithredol â grwpiau cymunedol lleol a'r rhai sy'n gweithio ar lawr gwlad, gan gynnwys pobl ifanc a theuluoedd y mae trais yn effeithio arnynt a/neu sydd mewn perygl o ddioddef trais, dioddefwyr a goroeswyr, a chyflawnwyr.**

**Cyfathrebu** Mae'r VPU yn cefnogi cyfathrebu rhwng sectorau a sefydliadau o fewn y system. Roedd mwyafrif aelodau'r VPU yn ymwybodol o uchelgeisiau cyffredinol yr uned a'u rôl a'u cyfrifoldebau o fewn hynny. Roedd uchelgeisiau tymor hwy y VPU yn llai eglur.

*“Dw i ddim yn credu bod unrhyw ddiffyg cyfathrebu”*

Argymhellion: Parhau i gynnal gweminarau a'u defnyddio fel cyfrwng i gyfleu gweithgaredd cyflawni, ymchwil a gwerthuso, canlyniadau a chynlluniau'r VPU i bartneriaid.

Ymgorffori camau gweithredu a pholisïau Mae'r VPU wedi galluogi aelodau i ymgorffori dull iechyd y cyhoedd o atal trais ar draws eu sefydliadau. Roedd llawer yn cytuno bod hon yn broses sy'n esblygu a fydd yn cryfhau ac yn tyfu wrth i'r VPU ymsefydlu.

*Dyma'r sefyllfa yr wyf eisiau bod ynddi, lle rydyn ni'n gallu dylanwadu lawe mwy ar bolisi Llywodraeth Cymru, blaenoriaethau gwariant... a chael gwir effaith ar benderfyniadau mawr."*

Argymhellion: Datblygu cynllun clir ar gyfer cyfeiriad strategol uniongyrchol a thymor hwy y VPU a chyfathrebu hyn gyda'r holl bartneriaid ar draws y system ac ar draws Cymru. Sicrhau bod agwedd weithredol y VPU wedi'i diffinio'n glir, gan dynnu sylw at gyflawniadau a swyddogaethau penodol y VPU.

**Cadarn a chynaliadwy** Disgrifiodd y rhanddeiliaid eu huchelgeisiau i gefnogi'r VPU i ddod yn endid cynaliadwy. Er bod llawer wedi disgrifio'r heriau sy'n gysylltiedig â chyllid tymor byr, roedd llawer yn cydnabod eu rôl a'u cyfrifoldeb o ran sicrhau bod dull iechyd y cyhoedd o atal trais yn cael ei ymgorffori ar draws y system gyfan.

*“Mae'r ffaith na fydd y VPU yma o bosibl ymhen 14 mis yn peri ychydig o bryder o ran parhad busnes”*

Argymhelliad: Cefnogi cydweithio ar draws y system (e.e. cyfleoedd ar gyfer cydariannu) i leihau cystadleurwydd rhwng asiantaethau a gwella cynaliadwyedd.

Arweinyddiaeth hwylusol Mae'r VPU wedi darparu arweinyddiaeth gref a chefnogaeth strategol, gan arwain at ddatblygu a gweithredu gweithgaredd atal trais sy'n dechrau creu newid ar draws y system gyfan. Er bod arweinyddiaeth y VPU yn gryf, dangosodd tystiolaeth o'r gwerthusiad hwn fod rhanddeiliaid yn tueddu i ganolbwyntio ar agweddau 'o'r brig i lawr' ar arweinyddiaeth y VPU.

*“Nid adeiladu ymerodraeth ydym ni, mae’n dechrau drwy ganolbwyntio ar y nod o atal trais”*

Argymhellion: Adeiladu ar fentrau ymgysylltu â'r gymuned i ganolbwyntio ar weithio ar lawr gwlad er mwyn cydgynhyrchu ymyriadau atal trais. Rhoi cyfleoedd i 'aelodau lleyg' gynrychioli llais y gymuned a dylanwadu ar gyfeiriad strategol a gweithredol y VPU.

**Monitro a gwerthuso** Mae'r VPU wedi ymrwymo i sicrhau bod gwaith cadw gwyliadwriaeth, ymchwil a gwerthuso trais yn sail i'r holl weithgaredd a chydnabuwyd hyn gan yr holl randdeiliaid. Mae'r VPU wedi buddsoddi adnoddau a chapasiti i ddatblygu a lledaenu tystiolaeth ac mae wedi ymrwymo i ymgorffori ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn mentrau atal trais.

*"Mae gennym lawer o sgiliau yn ein tîm i wneud hynny, ond mae gennym lawer mwy o ddylanwad yn lleol oherwydd rydyn ni'n gallu llywio'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad."*

Argymhellion: Parhau i fesur canlyniadau i sicrhau bod y VPU yn gallu dangos tystiolaeth o'i chyfeiriad a'r effeithiau tymor hwy sy'n gysylltiedig â nodau ac amcanion trosfwaol y VPU. Myfyrio ar sut y mae'r rhain yn cyd-fynd â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a nodwyd gan y Swyddfa Gartref. Parhau i ymgorffori gwaith gwerthuso ar draws gweithgaredd y VPU ac ymchwilio i a yw/sut mae'r VPET wedi'i fabwysiadu a'i roi ar waith ar draws sefydliadau partner.

# Cynnwys

1. Introduction ........................................................................................................... 1
1.1 The Wales Violence Prevention Unit (VPU) ............................................................... 1
1.2 A whole systems approach to violence prevention ..................................................... 2
1.3 Wales Violence Prevention Unit evaluation: phase 2 .................................................. 4
2. Methodology ............................................................................................................. 4
2.1 Evaluation Methods ..................................................................................................... 5
2.2 Analysis and Reporting ................................................................................................ 7
3. Findings ...................................................................................................................... 8
3.1 Partnerships: Developing Systems Change .................................................................. 8
3.2 Research, Evaluation and Surveillance ..................................................................... 13
3.3 Outcomes and Impact ................................................................................................ 15
3.4 Future Planning .......................................................................................................... 21
3.5 Gaps ............................................................................................................................ 27
3.6 A Pan-Wales Approach to Violence Prevention ......................................................... 28
4. Transforming Change: A Whole Systems Approach ................................................... 29
Wales VPU Systems Map .............................................................................................. 30
5. References ................................................................................................................ 37

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Uned Atal Trais Cymru (VPU)[2]

Yn 2019, cafodd Heddlu De Cymru gyllid gan y Swyddfa Gartref i sefydlu uned lleihau trais a oedd yn canolbwyntio ar fynd i’r afael â thrais difrifol. Gyda chefnogaeth ymrwymiadau gan bartneriaid ehangach yng Nghymru, sefydlwyd VPU Cymru. Er bod ymyriadau wedi'u hariannu yn cael eu darparu yn Ne Cymru, mae'r VPU yn gweithredu ledled Cymru, wedi'i llywio gan yr angen i ymgysylltu â phartneriaid, rhannu tystiolaeth a'r hyn a ddysgir, a hwyluso ymateb systemau cyfan i atal trais. Mae'r VPU wedi ymrwymo i ddefnyddio dull iechyd y cyhoedd o atal trais, a thrwy'r dull hwn, mae'n anelu at ddatblygu **dull system gyfan o atal trais**. Mae'r VPU yn ceisio sicrhau'r dull iechyd y cyhoedd hwn drwy bedair elfen allweddol:


> **Ymwybodol:** meithrin ymwybyddiaeth o ddulliau iechyd y cyhoedd o atal trais yng Nghymru a gweithredu fel hyb arbenigedd ar atal trais. Mae hyn yn cynnwys datblygu a lledaenu gwybodaeth am y dystiolaeth, theori, arbenigedd pwnc, ac arfer gorau lleol/cenedlaethol/rhyngwladol.
>
> **Eiriol:** dros ddull iechyd y cyhoedd o atal trais, drwy arweinyddiaeth VPU ar drais a bregusrwydd ledled Cymru, a sefydlu rhwydweithiau atal trais.
>
> **Cynorthwyo:** partneriaid i ddefnyddio tystiolaeth i lywio'r broses o ddarparu gwasanaethau a galluogi cydweithio amlasiantaeth i fynd i'r afael â thrais yng Nghymru, cynhyrchu dadansoddiadau data, cynnull partneriaid a darparu cyngor a chefnogaeth dechnegol.
>
> **Mabwysiadu:** comisiynu ac ariannu ymyriadau sy'n atal pob math o drais ledled Cymru drwy ddull iechyd y cyhoedd, drwy ddefnyddio gwasanaethau, darparu ymyriadau a chynnal ymchwil a gwerthuso i asesu ymarfer.

Mae aelodaeth VPU yn cynnwys ystod o aelodau cyswllt, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru, adran Mewnfudo'r Swyddfa Gartref, y sector gwirfoddol, iechyd a gofal cymdeithasol ac addysg (gweler ffigur 1). Mae'r model aelodaeth yn sicrhau y gall y VPU gydlynu a rheoli ymateb systemau cyfan i atal trais, gan nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithredu a chyd-ddysgu.

Mae'r VPU wedi mabwysiadu dull cyflawni sy'n cynnwys tri maes sy'n gweithio ymhellach i sicrhau bod dull iechyd y cyhoedd yn cael ei drosi'n arfer gweithredol. Mae pob aelod o'r VPU yn gweithredu'n bennaf o fewn un o'r tri maes hwn:

> **Iechyd y Cyhoedd:** sy'n cynnwys gwyliadwriaeth trais, ymchwil, gwerthuso, dysgu a gwybodaeth a rennir, ac eiriol dros ddull iechyd y cyhoedd o atal trais.
>
> **Partneriaethau** sy'n cynnwys partneriaethau ar gyfer atal trais, comisiynu i atal trais, sicrhau bod atal trais yn cael ei gynnwys ym mhob polisi, a llwybrau a gwaith amlasiantaeth.
>
> **Gweithrediadau:** yn cynnwys arweinyddiaeth dactegol a gweithredol, plismona a phartneriaid cyfiawnder troseddol a rhannu data gweithredol a gwybodaeth.

[2] Rhoddir disgrifiad manwl o fodel VPU Cymru yn Adroddiad Blynyddol 2020/21.




Ffigur 1. Model Aelodaeth VPU Cymru

Tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol 2019/20, datblygodd y VPU ddamcaniaeth newid a model rhesymeg cynhwysfawr i hwyluso'r ddealltwriaeth o'r gweithgareddau a'r ymyriadau sy'n ofynnol i atal trais yng Nghymru. Ymhellach, roedd y VPU yn cydnabod yr angen i ddylanwadu ar newid ehangach, cynaliadwy drwy ddylanwadu ar asiantaethau/rhanddeiliaid allweddol i ymgorffori dulliau iechyd y cyhoedd yn eu gwaith, i wella ymatebion rhyngasiantaethol ac i ymgorffori newid ar lefel system.

## 1.2 Dull systemau cyfan o atal trais

Ni fydd ymyriadau sy'n canolbwyntio ar unigolion yn unig yn mynd i'r afael â phenderfynyddion trais. Mae nodi a deall penderfynyddion ehangach iechyd sy'n effeithio ar boblogaeth yn hanfodol (PHE, 2019; GIG 2019). Mae dulliau sy'n seiliedig ar le (fel y disgrifir ym Mlwch 1) yn cydnabod dylanwad penderfynyddion ehangach iechyd ar draws y cwrs bywyd ac yn darparu fframwaith i fynd i'r afael â lefelau'r angen am gymunedau ar draws poblogaethau (PHE, 2019).

**Blwch 1: Dull sy'n seiliedig ar le**

Mae pob Uned Lleihau Trais wedi'i lleoli mewn ardal wahanol, gydag anghenion a blaenoriaethau gwahanol ar gyfer poblogaethau amrywiol. Mae dull sy'n seiliedig ar le yn cydnabod na fydd un ateb yn addas i bawb o ran mynd i'r afael â thrais difrifol yn llwyddiannus. Mae dull sy'n seiliedig ar le yn cynnwys sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth i ganolbwyntio ar wella canlyniadau ar gyfer y 'lle cyfan', nid dim ond i unigolion. Bwriad y dull hwn yw lleihau gweithio mewn seilos. Mae angen i bob ardal ddiffinio ei le; lleoliad ffisegol yn ogystal â chyd-destun cymdeithasol yw hwn. Er mwyn i ddull sy'n seiliedig ar le fod yn ystyrlon, rhaid i'r 'lle' gael ei ddiffinio gan bartneriaid lleol, gan gynnwys aelodau o'r gymuned (PHE 2019, tudalen 20).

Mae'r Strategaeth Trais Difrifol (Y Swyddfa Gartref, 2018) yn tynnu sylw at bwysigrwydd gweithredu dull sy'n seiliedig ar le wrth fynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais. Mae gweithio ar y cyd yn nodwedd allweddol o ddull sy'n seiliedig ar le, sy'n gofyn am ymgysylltu, cynllunio a phartneriaethau effeithiol rhwng sectorau statudol, anstatudol a chymunedol. Rhaid i broses arweinyddiaeth systemau effeithiol fod ar waith er mwyn cynllunio a gweithredu ymyriadau effeithiol sy'n arwain at ganlyniadau teg (PHE, 2019).

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cymhwyswyd egwyddorion gwyddoniaeth systemau i ystod o bynciau iechyd, cymdeithasol ac amgylcheddol cymhleth ac fe'u hyrwyddwyd mewn polisi a chanllawiau cenedlaethol a rhyngwladol (Kleinert a Horton, 2015; Mabry a Bures, 2014; Rutter, 2011).

Cydnabyddir bod angen dull systemau cyfan i fynd i'r afael â materion iechyd y cyhoedd cymhleth, er mwyn cefnogi dull cydgysylltiedig a chydweithredol i sicrhau newid hirdymor. Mae Bagnall, Radley, Jones et al (2019) yn tynnu sylw at y ffaith nad yw gweithredu rhaglen o weithgareddau ar draws sawl lleoliad neu lefel yn gyfystyr â dull systemau; y cyd-destun y cyflwynir yr ymyriadau ynddo a'r mecanweithiau gweithredol canolog sy'n bwysig. Mae nifer o adolygiadau tystiolaeth wedi ymchwilio i gysyniadau allweddol dull systemau cyfan o ymdrin ag iechyd y cyhoedd, gyda nifer o adolygiadau NICE[3] yn llywio datblygiad canllawiau sy'n nodi deg nodwedd allweddol dull system gyfan. Er bod yr adolygiadau wedi'u comisiynu i ddechrau i ganolbwyntio ar ordewdra, ehangwyd cwmpas y gwaith i ganolbwyntio ar ddulliau cymunedau cyfan (Bagnall et al, 2019; Garside, et al, 2010; NICE, 2010).

Tabl 1: Deg nodwedd dull systemau i fynd i'r afael â phroblemau iechyd y cyhoedd (Garside et al, 2010; NICE, 2010, cyhoeddwyd yn Bagnall et al 2019)

| | |
|---|---|
| Adnabod system | Cydnabyddiaeth benodol o'r system iechyd y cyhoedd gydag elfennau rhyngweithiol, hunanreoleiddiol ac esblygol system ymaddasol gymhleth. Cydnabod y gallai fod gan ystod eang o gyrff nad oes ganddynt unrhyw ddiddordeb neu amcanion amlwg sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd rôl yn y system ac felly y gallai ffiniau'r system fod yn eang. |
| Meithrin gallu | Nod penodol i gefnogi cymunedau a sefydliadau o fewn y system. |
| Creadigrwydd ac arloesedd | Mecanweithiau i gefnogi ac annog creadigrwydd a/neu arloesedd lleol i fynd i'r afael â phroblemau iechyd y cyhoedd a chymdeithasol. |
| Perthynas | Dulliau gweithio a gweithgareddau penodol i ddatblygu a chynnal perthnasoedd effeithiol o fewn a rhwng sefydliadau. |
| Ymgysylltu | Dulliau clir o wella gallu pobl, sefydliadau a sectorau i gynnwys aelodau o'r gymuned wrth ddatblygu a darparu rhaglenni. |
| Cyfathrebu | Mecanweithiau i gefnogi cyfathrebu rhwng unigolion a sefydliadau o fewn y system. |
| Ymgorffori camau gweithredu a pholisïau | Amlinellu arferion penodol ar gyfer iechyd y cyhoedd a gwelliant cymdeithasol o fewn sefydliadau yn y system. |
| Cadarn a chynaliadwy | Strategaethau clir i ddarparu adnoddau ar gyfer prosiectau a staff presennol a newydd. |
| Arweinyddiaeth hwylusol | Datblygu cefnogaeth strategol gref ac adnoddau priodol ar bob lefel. |
| Monitro a gwerthuso | Dulliau wedi'u cyfleu'n glir i ddarparu adborth parhaus i'r system, er mwyn ysgogi newid i wella effeithiolrwydd a derbynioldeb. |

Er gwaethaf pwysigrwydd hyrwyddo dull system gyfan ym mholisi iechyd y cyhoedd cyfredol, cymysg yw'r dystiolaeth ynghylch y ffyrdd o gymhwyso'r dull hwn sy'n cael yr effaith fwyaf. Archwiliodd Bagnall et al (2019) dystiolaeth gyhoeddedig ar gymhwyso dull systemau cyfan o ymdrin ag iechyd y cyhoedd a meysydd cysylltiedig (gan gynnwys troseddu a chyfiawnder), gan gyfeirio at y deg nodwedd allweddol a ddatblygwyd gan Garside, et al, 2010 a NICE, 2010. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad fod rhaglenni sy'n mabwysiadu'r deg nodwedd hyn yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus na rhaglenni nad

[3] Garside, Pearson, Hunt, Moxham ac Anderson (2010); Hunt, Anderson, Coelho et al (2011); Pearson, Garson, Fry-Smith a Bayliss (2011).

ydynt yn gwneud hynny. Amlygwyd bod pwysigrwydd datblygu perthnasoedd, ymgysylltu â rhanddeiliaid, sicrhau arweinyddiaeth gefnogol a chael dull cadarn a chynaliadwy i gyd yn allweddol i lwyddiant. Nodwyd hefyd bwysigrwydd capasiti cymunedol, perchnogaeth ac ymrwymiad, ac amser i adeiladu perthnasoedd ac ymddiriedaeth yn ganolog i ddull system gyfan lwyddiannus (Bagnall et al 2019).

### 1.3 Gwerthusiad o Uned Atal Trais Cymru: cam 2

Yn 2019/20, gwerthusodd LJMU broses a gweithrediad VPU Cymru yn ystod ei blwyddyn weithredu gyntaf (Timpson, Harrison, Bigland, Butler a Quigg 2020). Mae'r gwerthusiad cyfredol hwn yn adeiladu ar y cam cyntaf, gyda'r nod o adeiladu ar y dystiolaeth drwy archwilio proses ac effeithiau'r VPU, gyda ffocws penodol ar ddull system gyfan iechyd y cyhoedd o atal trais.

Prif amcanion y gwerthusiad cyfredol oedd:

1. Archwilio'r **dull system gyfan** o ddatblygu a gweithredu rhaglen waith VPU Cymru er 2019/20, gan ddefnyddio model rhesymeg VPU fel fframwaith i asesu cynnydd wrth gyflawni gweithgareddau a chanlyniadau a nodwyd.
2. Gwerthuso datblygiad, gweithrediad a chanlyniadau **System Dadansoddi Gwyliadwriaeth Trais Cymru (WVSAS).**
3. Adnabod **sut y mae COVID-19 wedi effeithio ar y VPU**, ystyried y system gyfan, WVSAS ac ymyriadau wedi'u hariannu, a chynnydd mewn gweithgareddau a chanlyniadau.

Yn ogystal, ceisiodd y gwerthusiad:

4. Gydweithio â VPU Cymru i sefydlu ac ymgorffori systemau monitro a gwerthuso arferol, i lywio gwaith monitro a gwerthuso tymor byr, tymor canolig a thymor hir o'r VPU a rhaglenni gwaith cysylltiedig (gan arwain at ddatblygu a chyhoeddi Pecyn Cymorth Gwerthuso Atal Trais [VPET]).
5. Cydweithio â VPU Cymru i gefnogi ymyriadau atal trais lleol i weithredu prosesau monitro a gwerthuso rhaglenni, gan rymuso partneriaid i gynnal gwerthusiad cadarn o ymyriadau atal trais gan ddefnyddio'r VPET.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddulliau, canfyddiadau ac argymhellion y gwerthusiad system gyfan, ac yn tynnu ar broses a chanlyniadau gwerthusiad WVSAS (Quigg, Butler, Harrison, Bates a Timpson 2021) a datblygu a gweithredu'r VPET (Quigg, Timpson, Newbury et al 2020); adroddir ar yr agweddau hyn o'r gwerthusiad ar wahân.

Dechreuwyd casglu data gwerthuso yn ystod hydref 2020 ac fe'i cwblhawyd ym mis Mawrth 2021. Rhoddwyd cymeradwyaeth foesegol i'r ymchwil gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil LJMU.

## 2. Methodoleg

Defnyddiodd y rhaglen ymchwil hon ddull cymysg i gasglu'r dystiolaeth sy'n ofynnol i gyflawni amcanion y gwerthusiad. O ystyried prif ffocws y gwerthusiad, defnyddiodd y fethodoleg drosfwaol ddull systemau, gan gyfeirio at y ddogfen *Guidance on Systems Approaches to Local Public Health Evaluation* a gyhoeddwyd gan Egan, McGill, Er et al (2019a) ac Egan, McGill, Penney et al (2019b). Roedd y dull hwn yn caniatáu archwilio effaith y VPU, wrth gasglu tystiolaeth am y ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar newid.

Prin yw'r astudiaethau sy'n darparu tystiolaeth ynghylch gweithredu ac effeithiolrwydd dull system gyfan; yn bennaf oherwydd nad yw gwerthusiadau'n canolbwyntio ar archwilio'r 'mecanweithiau gweithredol sylfaenol canolog' sy'n hanfodol i ddull systemau cyfan, megis gwella rhwydweithiau a pherthnasoedd, a gweithio tuag at nod cyffredin (Bagnall et al, 2019).

Yng ngoleuni'r dystiolaeth sydd ar gael, ac wedi'i harwain gan yr argymhellion sydd ar gael, ymgorfforodd ein methodoleg bedwar o'r dulliau gwerthuso systemau a grynhowyd gan Egan et al (2019a):

- **Ymchwil fanwl drwy lens systemau:** Fe wnaethom samplu cyfranogwyr o wahanol rannau o'r system, gan archwilio effaith y VPU ar berthnasoedd a newid, a deall sut mae gwahanol rannau o'r system yn effeithio ar ei gilydd.
- **Addasu dulliau gwerthuso traddodiadol gyda phersbectif systemau:** Fe wnaethom archwilio hwyluswyr i newid ymddygiad, rhwystrau a heriau, a dechrau casglu tystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio'n dda, i bwy ac o dan ba amgylchiadau.
- **Mapio cysyniadau a systemau:** Fe wnaethom geisio deall problemau, heriau ac atebion drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid. Fe wnaethom archwilio'r ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar weithgareddau atal trais yng Nghymru a thrafod cyfleoedd i newid.
- **Dadansoddiad o'r rhwydwaith:** Drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, fe wnaethom waith i fapio sut mae gwahanol bobl neu sefydliadau yn cysylltu â'i gilydd i nodi dylanwadwyr allweddol yn rhwydwaith VPU Cymru (sefydliadau sydd â mwy o ddylanwad nag eraill) ac archwilio a oedd rhai rhannau o'r rhwydwaith yn ynysig neu'n gweithio mewn seilo.

Mae dulliau gwerthuso systemau eraill a nodwyd gan Egan et al (2019b) yn cynnwys **modelu systemau'n ddeinamig** (modelu cyfrifiadurol sy'n archwilio sut mae newidiadau cymhleth yn effeithio ar y system ehangach) a **modelu yn seiliedig ar asiantau** (modelu cyfrifiadurol sy'n archwilio gweithredoedd a rhyngweithiadau pobl o fewn grŵp mwy); roedd y ddau ddull y tu allan i gwmpas y gwerthusiad cyfredol.

**Nodyn ar ddangos tystiolaeth o ganlyniadau:**

Er bod mesur canlyniadau yn agwedd bwysig ar werthuso, mae dull meddwl drwy systemau yn cydnabod y bydd gwerthusiadau yn ystyried y **newidiadau** sy'n digwydd oherwydd rhaglen neu ymyrraeth, a'r effeithiau (neu'r effeithiau posibl) y gallai'r newidiadau hyn eu hachosi dros amser. Yma, mae gwerthusiad o systemau yn galluogi archwilio'r mecanweithiau sy'n sail i ymyriadau atal trais ac yn darparu *arwydd o'r 'cyfeiriad' (y duedd o ran buddion neu niwed ar gyfer yr holl effeithiau ar adegau penodol) yn hytrach na barn derfynol am effeithiau ymyrraeth.* (Egan et al 2019a, t.12).

## 2.1 Dulliau Gwerthuso

Defnyddiwyd nifer o ddulliau i gasglu tystiolaeth ar gyfer y gwerthusiad hwn:

**Cyfweliadau â phartneriaid VPU a rhanddeiliaid allweddol eraill**

Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gyda 22 o gyfranogwyr a oedd yn cynrychioli ystod o aelodau craidd (amser llawn), aelodau cyswllt a phartneriaid ehangach ar draws 21 o sefydliadau.

- Ymchwiliodd y cyfweliadau i rôl ac ymwneud y cyfranogwyr â'r VPU; a yw hyn wedi datblygu dros amser ac, os felly, sut; eu barn ar rôl y VPU o ran gweithgaredd atal trais ehangach ledled Cymru; safbwyntiau ynghylch cyfeiriad y VPU yn y dyfodol a rhaglenni gwaith cysylltiedig (gan gynnwys cynaliadwyedd) a rhwystrau a hwyluswyr i lwyddiant.

Cynhaliwyd cyfweliadau dros y ffôn neu drwy MS Teams (yn dibynnu ar ddewis y cyfranogwr). Gwnaed recordiadau sain o'r cyfweliadau, cawsant eu trawsgrifio gan ddefnyddio meddalwedd trawsgrifio (Otter) a'u gwirio gan yr ymchwilydd.

**Gwerthusiad o System Gwyliadwriaeth a Dadansoddi Trais Cymru (WVSAS)** (Quigg et al 2021; adroddiad llawn ar gael ar wahân)

Cynhaliwyd arolwg ar-lein (n=50) i ymchwilio i ymwybyddiaeth, canfyddiadau a defnydd partneriaid VPU o'r WVSAS (gan gynnwys adroddiadau monitro trais COVID-19), yn cynnwys y data sydd ar gael a'r dadansoddiadau/allbynnau a gynhyrchwyd. Roedd yr arolwg yn agored i ddefnyddwyr presennol a darpar ddefnyddwyr WVSAS a'i nod oedd nodi:

- Pa bartneriaid sy'n defnyddio'r system ar hyn o bryd, sut, pam a'r effeithiau ar bartneriaid a chymunedau lleol.
- Derbynioldeb a defnyddioldeb y WVSAS cyfredol, meysydd o arfer da a meysydd i'w datblygu o ystyried y data sydd ar gael, dadansoddiadau/allbynnau a gynhyrchir, a llwybrau rhannu data/allbynnau.
- Anghenion data partneriaid i'w cefnogi i weithredu dull iechyd y cyhoedd o atal trais.
- Pa sefydliadau data a all gyfrannu at WVSAS (gan ystyried model rhesymeg VPU), a'r potensial i gynnwys data o'r fath yn y WVSAS, gan ystyried rhwystrau a hwyluswyr.
- Profiadau a chanfyddiadau partneriaid o'r VPU mewn ystyr ehangach, gan gynnwys dealltwriaeth o nodau ac amcanion y VPU, y ffyrdd y mae'n cefnogi gweithio mewn partneriaeth a gweithio'n seiliedig ar system gyfan, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a buddiolwyr ehangach.

Dosbarthwyd dolen i'r arolwg ar-lein a'r daflen wybodaeth i gyfranogwyr gan y VPU drwy e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol i bartneriaid a grwpiau'r VPU sy'n cael mynediad i ddata ac adroddiadau WVSAS ar hyn o bryd. Gofynnwyd i bartneriaid sydd wedi defnyddio'r WVSAS a ellid cysylltu â nhw i gael manylion pellach. Cynhaliwyd saith cyfweliad ychwanegol gyda phartneriaid allweddol i ymchwilio ymhellach i faterion sy'n ymwneud yn benodol ag WVSAS.

**Gweithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid**

Cynhaliwyd dau weithdy ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod cam 2 y gwerthusiad hwn. Cynhaliwyd y cyntaf ym mis Tachwedd 2020, i gyflwyno'r VPET i bartneriaid allweddol sy'n ymwneud â darparu a/neu sydd yn darparu ymyriadau atal trais lleol. Rhoddodd y gweithdy gyflwyniad i'r VPET a gweithiodd gyda phartneriaid i'w cefnogi i ddatblygu amcanion gwerthuso a chynllun gwerthuso ar gyfer eu hymyrraeth. Mynychwyd y gweithdy gan 27 o bobl a oedd yn cynrychioli 15 o sefydliadau; y mwyafrif ohonynt yn sefydliadau cymunedol a/neu sector gwirfoddol.

Cynhaliwyd ail weithdy ymgysylltu â rhanddeiliaid ym mis Mawrth 2021 i archwilio a nodi canlyniadau'r VPU, ymchwilio i safbwyntiau a phrofiadau o newid systemau a nodi mecanweithiau newid. Rhoddodd y gweithdy gyfle i randdeiliaid fyfyrio ar y model rhesymeg a damcaniaeth newid a ddatblygwyd yn 2020, a mapio canlyniadau tymor byr, tymor canolig a thymor hwy disgwyliedig.

Mynychwyd y gweithdy gan 34 o randdeiliaid a oedd yn cynrychioli aelodau craidd (amser llawn), aelodau cyswllt a phartneriaid ehangach ar draws 16 o sefydliadau. Ymchwiliodd y gweithdy i brofiadau rhanddeiliaid o'r graddau y mae gwaith amlasiantaeth yn digwydd, gan archwilio perthnasoedd ar draws y system ac a yw partneriaethau, systemau a llwybrau ehangach wedi'u cryfhau ers ffurfio'r VPU. Ymchwiliodd y gweithdy hefyd i ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar weithgareddau atal trais yng Nghymru ac yn cyflwyno cyfleoedd i newid, ac i ddeall y problemau, yr heriau a'r atebion.

**Adolygiad o ddogfennau cyflawni'r rhaglen**

Adolygwyd dogfennau'n ymwneud â chyfeiriad strategol a chyflawni VPU Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys Asesiad o Anghenion Strategol Trais Difrifol Ieuenctid yn Ne Cymru (2020), Strategaeth Atal Trais Difrifol ymysg Ieuenctid yn Ne Cymru (2020) ac Adroddiad Blynyddol VPU Cymru (2021). Mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhoi trosolwg o gynnydd a chanlyniadau VPU Cymru ac wedi darparu'r cyd-destun ar gyfer cynnydd a pherfformiad cyfredol.

**Nodi effaith COVID-19:**

Ymgorfforwyd cwestiynau ynghylch effaith COVID-19 yn y cyfweliadau, y gweithdy ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithgareddau WVSAS.

**Gwerth cymdeithasol:**

Roedd y dulliau gwerthuso yn cynnwys cwestiynau ynghylch canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach (ac anfwriadol yn aml) rhaglen waith VPU, i helpu i egluro a deall y newid a ddaeth yn sgil y rhaglen. Roedd hyn yn cynnwys cwestiynau am fuddiolwyr canlyniadau'r VPU ar draws y system (fel unigolion, cymunedau a sefydliadau partner) a thwf a chynaliadwyedd gweithgareddau atal trais (gan gynnwys y VPU). Mae'r dull hwn hefyd yn ein helpu i nodi canlyniadau ac effeithiau sy'n anoddach eu mesur fel buddion cymdeithasol ehangach, llai o ddefnydd/ymgysylltiad â gwasanaethau, a mwy o ymwybyddiaeth a defnydd o asedau cymunedol.

## 2.2 Dadansoddi ac Adrodd

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg manwl o'r dulliau, y canfyddiadau a'r argymhellion o'r gwerthusiad system gyfan. Disgrifir gwerthusiad a datblygiad WVSAS a gweithrediad y VPET ar wahân (Quigg et al 2020). Mae'r broses a chanfyddiadau'r gweithgareddau hyn wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad hwn lle bo hynny'n briodol.

Dadansoddwyd data ansoddol o'r cyfweliadau â rhanddeiliaid a'r ail weithdy rhanddeiliaid gan ddefnyddio dull thematig anwythol. Datblygwyd themâu ac is-themâu allweddol ac fe'u cyflwynir yn yr adran ganlyniadau.

Mae'r canfyddiadau hyn wedi'u triongli gan gyfeirio at egwyddorion allweddol dull iechyd y cyhoedd system gyfan a nodwyd gan NICE (2010) ac argymhellion pellach a nodwyd gan Bagnall et al (2019).

| Adnabod system | Cyfathrebu |
|---|---|
| Meithrin gallu | Ymgorffori camau gweithredu a pholisïau |
| Creadigrwydd ac arloesedd | Cadarn a chynaliadwy |
| Perthynas ac ymddiriedaeth | Arweinyddiaeth hwylusol |
| Ymgysylltu | Monitro a gwerthuso |

Yn olaf, mae map systemau wedi'i ddatblygu, wedi'i lywio gan yr holl dystiolaeth a gasglwyd o'r gwerthusiad hwn. Mae'r map systemau yn rhoi trosolwg o sut mae'r gwahanol asiantau (pobl, gwasanaethau, sefydliadau) yn rhyng-gysylltu ac yn dylanwadu ar ei gilydd.

# 3. Canfyddiadau

At ddibenion y gwerthusiad hwn, mae'r term 'system' yn cyfeirio at yr ystod eang o asiantaethau ledled Cymru sy'n cyfrannu at atal trais. Fel y cydnabuwyd gan Garside et al (2010) a NICE (2010), mae'r ffiniau ar gyfer y system hon yn eang a heb eu diffinio.

Gwyddom o'r dystiolaeth fod newid systemau yn llwyddiannus yn mynd y tu hwnt i gomisiynu ymyriadau ar wahanol lefelau o'r system (sylfaenol/eilaidd/trydyddol); mae hefyd yn dibynnu ar y partneriaethau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu dull iechyd y cyhoedd o atal trais, ac ymgorffori hyn yn llwyddiannus ar draws polisi ac ymarfer. Mae dull cyflawni tri maes y VPU yn gweithio i gyflawni'r uchelgais hon drwy ganolbwyntio ar iechyd y cyhoedd, partneriaethau ac ymarfer gweithredol. Canolbwyntiodd canfyddiadau'r gwerthusiad system gyfan hon ar dwf partneriaethau a rhwydweithiau, effaith hyn, a bylchau neu wendidau ar draws y system. Llwyddodd llawer o randdeiliaid i gyfleu cenhadaeth y VPU ac roedd eu sgyrsiau yn canolbwyntio ar eu profiadau a'u canfyddiadau o newid systemau, ynghyd â'u gwybodaeth am ymyriadau a gomisiynwyd, er bod bylchau. Mae nifer o themâu ac is-themâu wedi'u nodi ac fe'u cyflwynir isod, gyda dyfyniadau i ategu pwyntiau allweddol. Lle bo hynny'n berthnasol, cyflwynir canfyddiadau a phrofiadau aelodau craidd ac aelodau cyswllt ar wahân e.e. i dynnu sylw at wahaniaethau neu bwysleisio canfyddiad (mae aelodau cyswllt yn cael eu labelu'n 'AC').

## 3.1 Partneriaethau: Datblygu Newid Systemau

### Pobl a Rhwydweithiau

Yn y cyfweliadau drwyddynd draw, disgrifiodd aelodau craidd a chysylltiedig fod pobl a rhwydweithiau yn ganolog i lwyddiant y VPU, o ran gallu ymgorffori dull iechyd y cyhoedd o atal trais, ac yn y pen draw cael effaith ar atal trais difrifol. Myfyriodd llawer ar sut mae aelodaeth y VPU wedi tyfu ers y flwyddyn gyntaf a disgrifiodd y mwyafrif fod y VPU yn ymgysylltu â'r holl bartneriaid perthnasol. Adlewyrchwyd hyn yng ngwerthusiad WVSAS, a ddarganfu fod cyfran fawr o'r ymatebwyr (79.1%, n= 34/43) yn cytuno bod y VPU yn ymgysylltu â'r holl bartneriaid perthnasol. Yn y gwerthusiad system gyfan, disgrifiodd aelodau craidd sut roedd gwybodaeth bresennol am bobl allweddol sy'n gweithio ym maes atal trais a / neu iechyd y cyhoedd yn hysbysu'r broses o adnabod aelodau cyswllt, a bod y mapio'n cael ei ddefnyddio i nodi bylchau. Adleisiwyd hyn gan y mwyafrif o'r aelodau cyswllt, gan ddisgrifio eu perthnasoedd blaenorol â phersonél VPU allweddol ac egluro sut roedd yr ymwybyddiaeth hon wedi helpu i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o bwy ddylai fod yn rhan o'r rhwydwaith VPU.

*Mae'r cyfleoedd hynny ar gyfer gweithio ar y cyd neu ddod â rhai o'r aelodau cyswllt i mewn i weithio gyda'r VPU, mae hynny wedi cryfhau dros y flwyddyn hefyd, wrth i ni ddod yn fwy sefydledig, felly mae pobl wedi dod ychydig yn fwy ymwybodol o'r gefnogaeth y gallwn ei chynnig, a'r galluoedd o fewn y tîm. (Craidd, P3)*

*Roeddem wedi edrych ar gwpl o ddarnau o waith gan gydweithio â Heddlu De Cymru, felly roeddwn eisoes yn ei adnabod pan ymddeolodd o fod yn Brif Gwnstabl Cynorthwyol, ac roeddem yn gwybod ei fod yn mynd i'r rôl hon ac fe wnes i ei gyfarfod yn gynnar iawn, pan oedd yn cyfarfod ac yn cyfarch cymaint o bobl â phosibl i drafod sut y gallem barhau i weithio gyda'n gilydd. Yn amlwg, eglurodd strwythur cyffredinol y VPU, gan ei bod yn datblygu ac yn ymsefydlu yng Nghymru, ac y byddai gwahoddiad i mi ymuno fel aelod cyswllt. (AC, P7)*

*Mae'r hanes y tu ôl i'r partneriaethau yn help, yn enwedig ym maes plismona ac iechyd y cyhoedd. Ac mae'n wirioneddol wych (Craidd, P19)*

Disgrifiodd yr aelodau cyswllt eu profiadau o weithio gyda phartneriaid ar draws y system a rhannu eu barn am sut roedd ymwneud â'r VPU wedi ehangu eu rhwydweithiau a/neu eu hannog i weithio mewn partneriaeth. Roedd consensws ymhlith yr holl randdeiliaid na fyddai'r lefel hon o bartneriaeth a rhwydweithio wedi'i chyflawni heb y VPU.

*Yn sicr, o weld y rhestr o fynychwyr cyfarfodydd, gwasanaethau cyhoeddus ac elusennau a phob math o aelodau, felly mae'n ymddangos bod pob un sy'n ymwneud â'r sector hwn yn rhan o'r VPU. (AC, P21)*

*Yn ein profiad ni, anaml y mae sefydliadau'n cael eu dwyn ynghyd, yn enwedig o ran trefnu cyfarfodydd sy'n dwyn ynghyd ystod o bartneriaethau, gyda ffocws ar y gymuned, y sector gwirfoddol, hyrwyddwyr cymunedol... Byddwn yn rhoi clod i'r VPU, oherwydd maen nhw [fel arall] ar wahân mewn gwirionedd o ran asiantaethau ac ati, nid ydynt yn cydweithio'n gryf iawn yn hynny o beth. (AC, P20)*

*Mae bron fel ymuno â'n gilydd a chydweithio fel un. Felly mae gennych chi un dull o ddelio â thrais... rwy'n credu bod pob asiantaeth sy'n gwneud hynny yn cyfrannu at y VPU, at gyrraedd y nod, ac efallai na fyddai hynny'n digwydd fel arall. (AC, P4)*

*Yn bendant mae ei angen, [mae'r VPU yn] dod â phartneriaid ynghyd, ac yn ein cael ni i gyfathrebu â phobl na fyddem o reidrwydd yn cyfathrebu â nhw oni bai bod dyletswydd statudol i wneud hynny, pe bai'n ymwneud â phlentyn. (AC, P18)*

Adleisiwyd y canfyddiadau hyn yng ngwerthusiad WVSAS, gydag 83% (n=39/47) o'r ymatebwyr i'r arolwg yn cytuno bod y VPU yn hwyluso gwaith amlasiantaeth at ddibenion atal trais ledled Cymru (e.e. cydlynu ymatebion partner i drais, galluogi rhwydweithio rhwng sefydliadau ledled Cymru). Trafodwyd yr aelodaeth gynyddol o VPU mewn nifer o gyfweliadau'r system gyfan, gyda phartneriaid yn disgrifio sut roedd pobl a sefydliadau sy'n gweithio ym maes atal trais wedi dechrau ceisio ymgysylltu â'r VPU. Disgrifiodd aelodau craidd sut roeddent wedi cymryd agwedd fwy detholus a strategol tuag at aelodaeth gyswllt yn ddiweddar. Cytunodd mwyafrif y partneriaid fod yr aelodaeth wedi'i rheoli'n dda.

*Rwy'n gweithio gyda phartneriaid strategol a phartneriaid lleol i gyflawni mentrau sy'n ymwneud ag atal trais ac atal SOC (Troseddau Cyfundrefnol Difrifol) ac yn bwysicach, rwy'n hyrwyddo'r ffaith bod SOC yn aml yn arwain at drais, boed yn llinellau cyffuriau a throseddau caffael... fe wnes i weithio ar y strategaeth a chysylltu â'r VPU i geisio mabwysiadu a bod yn rhan o'r rhwydwaith hwnnw... rydym yn aelod cyswllt o'r VPU. (AC, P22)*

*Gan fod yr aelodaeth yn tyfu a thyfu, roeddwn i'n teimlo bod ganddyn nhw ffordd wybodus iawn o sicrhau eu bod nhw'n gwneud y gorau o'r sefyllfa. Felly fe wnes i ddarganfod eu bod yn gwneud eu gwaith ymchwil, roedd presenoldeb da mewn cyfarfodydd ac roedd ganddyn nhw egwyddorion ac amcanion clir…. O ran gweithrediad y VPU ei hun, cydweithwyr, fe wnaeth hynny argraff fawr arnaf... criw da o bobl benderfynol iawn, niferoedd da yn mynychu cyfarfodydd bob amser, fel y dywedais, roedden nhw'n glir iawn o ran beth roedden nhw eisiau ei gyflawni. Ac roedden nhw'n trafod hynny'n gyson ym mhob cyfarfod, beth rydyn ni'n ceisio'i gyflawni a sut rydyn ni'n mynd i wneud hynny? Rwy'n credu eu bod yn gweithio'n dda fel tîm. Ac*

*fel y dywedais, roedd nifer yr aelodau a oedd yn mynychu cyfarfodydd bob amser yn cynyddu, sy'n dangos eu bod yn estyn allan i gael y bobl iawn i gymryd rhan o amgylch y bwrdd. (AC, P12)*

Fodd bynnag, er bod llawer o aelodau cyswllt yn ymwybodol o'r VPU, dywedodd nifer fach nad oedd ganddynt lawer o wybodaeth am yr uned cyn iddi gysylltu â nhw. Dywedodd aelod cyswllt arall nad oedd yn glir ynghylch y gweithgareddau sy'n cael eu hariannu drwy'r VPU neu'r broses o benderfynu ar y cyllid hwn. Mae hyn yn tynnu sylw at y ffaith efallai na fydd cyfathrebu am y VPU yn cyrraedd asiantaethau sy'n gweithio ar y cyrion.

*Awgrymodd y Dirprwy Gyfarwyddwr ar y pryd y dylem ymwneud â gwaith atal trais. Ac roedd am i mi wneud prosiect, ac ymuno fel Aelod Cyswllt... fe wnes i ychydig bach o ymchwil i'r Uned Atal Trais. Felly cyn hynny, doeddwn i ddim yn gwbl ymwybodol ohoni. Felly fe wnes i ychydig o ymchwil. (AC, P4)*

### Heriau i Bartneriaid

Er bod gweithio mewn partneriaeth wedi'i hwyluso a'i gryfhau o ganlyniad i'r VPU, disgrifiodd rhai partneriaid heriau sy'n gysylltiedig â hyn. Yn ystod y gweithdy ymgysylltu â rhanddeiliaid, disgrifiodd rhai partneriaid fod sefydliadau yn y trydydd sector yn aml yn cynnig am yr un cronfeydd cyllid, ac y gall hyn greu cystadleuaeth a her ymhlith asiantaethau a ddylai ganolbwyntio ar gydweithio. Teimlwyd hefyd bod gan sefydliadau flaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd yn aml ac y gallai hyn greu her o ran mabwysiadu dull cydweithredol. Roedd yr heriau penodol a roddwyd ar nodiadau 'post-it' rhithwir yn cynnwys:

- Sefydliadau sydd â blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd - mae trais yn un o lu o faterion y mae'n rhaid iddynt fynd i'r afael â hwy;
- Sefydliadau/gwasanaethau yn cystadlu â'i gilydd - yn hytrach na chydweithio. Ar adegau, mae sefydliadau'r trydydd sector/sector gwirfoddol yn cystadlu â'i gilydd, yn enwedig pan fyddant yn ddibynnol ar gyllid;
- Gwrthdaro mewn perthnasoedd ymhlith rhai sefydliadau - e.e. gall y rhai sy'n 'cystadlu' am yr un cyllid effeithio ar barodrwydd i gydweithredu;
- Tryloywder a chydweithio;
- Cefnogaeth gan bartneriaid, nid yn unig mewn llais ond hefyd o ran eu gweithredoedd. Mae adnoddau yn aml yn rhwystr i hynny;
- Gwerthfawrogi gwaith pob tîm. Rydym yn tueddu i feddwl bod rhai yn ddibwys, ac mai ein dull neu'n ffordd NI sydd orau.

### Atal Trais ac Iechyd y Cyhoedd

Un o uchelgeisiau allweddol VPU Cymru yw ymgorffori dull iechyd y cyhoedd o atal trais ar draws y system, gan ddefnyddio aelodau a phartneriaid ehangach ar draws rhwydweithiau perthnasol i gyflawni pedair elfen y model VPU (Ymwybodol, Eiriol, Cynorthwyo, Mabwysiadu). Roedd mwyafrif y rhanddeiliaid yn hyderus yn eu dealltwriaeth o ddull iechyd y cyhoedd o atal trais, gyda llawer yn disgrifio enghreifftiau o sut a ble roedd y dull hwn yn cael ei weithredu ar draws y system. Adleisiwyd y canfyddiad hwn yng ngwerthusiad WVSAS, a ganfu fod 87.8% (n=43/49) o gyfranogwyr yr arolwg yn cytuno (gan gynnwys cytuno a chytuno'n gryf) eu bod yn deall rôl a nodau ac amcanion VPU Cymru; roedd gan 73.5% (n=36/49) ymwybyddiaeth dda o'r gweithgareddau/gwaith sy'n cael ei gyflawni gan y VPU; ac roedd 87.5% (n=42/48) yn cytuno bod y VPU yn hyrwyddo dull iechyd y cyhoedd o atal trais yn rhagweithiol.

Yn ystod cyfweliadau â rhanddeiliaid ar gyfer y gwerthusiad system gyfan, rhoddodd llawer o'r aelodau craidd enghreifftiau o sut roedd y VPU yn eiriol ac yn gweithredu'r dull hwn, gan gyfeirio'n benodol at sut roeddent wedi gallu mabwysiadu'r dull hwn o fewn eu rôl eu hunain. Soniodd rhai hefyd am eu canfyddiadau ynghylch sut roedd y dull hwn yn cael ei ymgorffori ar draws y system ehangach. Tynnodd nifer sylw at y modd y mae'r gweithgareddau a roddwyd ar waith cyn y VPU wedi darparu sylfaen dda i'r rhaglen.

> *Rwy'n credu bod yna sylfaen eithaf da, o ran rhai agweddau arni, y rhaglen ACEs yng Nghymru, a Camau Cynnar Gyda'n Gilydd, felly rwy'n credu bod hynny wedi darparu rhywfaint o sylfaen i bobl, yn sicr ym maes plismona. (Craidd, P15)*

> *Mae'r rhaglen Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod Camau Cynnar Gyda'n Gilydd wedi bwrw gwreiddiau, ac mae hynny wedi bodoli ers blynyddoedd, dyw e ddim yn rhywbeth newydd, dyw e ddim yn rhywbeth newydd sbon. Felly rwy'n meddwl er tegwch i'r rhaglen honno, yn ogystal â bod yn eglur iawn, roedd hynny'n rhan o'r ymdrech yn ymwneud â Camau Cynnar Gyda'n Gilydd, o ran diogelu cenedlaethau'r dyfodol. Ac o ganlyniad, rwy'n credu bod yr amgylchedd rydyn ni'n rhan ohono wedi bod yn un croesawgar iawn o ran mabwysiadu agwedd ataliol ar ffurf ymyrraeth gynnar, a bod yn onest, rwy'n credu bod pawb yma yn credu ynddo, yn credu mewn gwaith atal. (Craidd, P1)*

Agwedd allweddol ar y gwerthusiad hwn oedd ymchwilio i sut roedd partneriaethau a rhwydweithiau wedi esblygu drwy gydol ail flwyddyn y VPU, a dangos tystiolaeth o'r effaith a gafodd hyn ar y system ehangach. Disgrifiodd llawer o aelodau craidd sut roedd dull iechyd y cyhoedd wedi'i ymgorffori ar draws rolau a sefydliadau, a sut roedd y VPU yn mabwysiadu dull mwy strategol o fynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais.

> *Os ydych chi'n mabwysiadu dull iechyd y cyhoedd, yna allwch chi ddim edrych ar y math hwnnw o drais ar ei ben ei hun. Rydyn ni i gyd yn gwybod bod cysylltiad agos rhyngddynt...os ydych chi eisiau mynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais, yna mae angen i chi weithredu'n llawer cynharach a thwrio'n ddyfnach, ac felly, o ran y grwpiau targed, rwy'n credu bod llawer o'r rhaglenni rydyn ni wedi'u comisiynu, wedi cael eu targedu'n benodol at y grwpiau hynny, ond byddwn i'n dweud eu bod nhw'n sicr wedi ehangu dros y flwyddyn ddiwethaf. (Craidd, P19)*

> *Rydym wedi cyflwyno Rhwydwaith Hyrwyddwyr Atal Trais Difrifol yn Heddlu De Cymru. Felly mae hynny'n cael ei arwain gan y VPU, ac rwy'n credu ein bod ni wedi recriwtio 52 o swyddogion i'r rhwydwaith nawr. Rydyn ni'n cyflwyno ystod o weminarau, ac mae ganddyn nhw fforwm ar-lein. Mae hynny i gyd yn ymwneud â bod yn wybodus am drawma ac yn ymwybodol o drawma, dull iechyd y cyhoedd, a cheisio eu helpu i ymgorffori hynny yn eu gwaith gweithredol bob dydd. Ac yna o fewn yr uned ei hun, hefyd, mae hynny yn sicr wedi datblygu dros y flwyddyn a mwy ddiwethaf, mae pobl yn dod o bob math o sefydliadau, mae rhai eisoes wedi mabwysiadu'r dull iechyd y cyhoedd hwn sy'n seiliedig ar drawma. (Craidd, P3)*

Mae aelodau cyswllt yn mynychu cyfarfodydd tîm y VPU ac yn rhannu eu profiadau, gan sicrhau bod arfer da yn cael ei fabwysiadu a bod dyblygu yn cael ei osgoi. Disgrifiodd un aelod craidd bwysigrwydd yr aelodau cyswllt, gan dynnu sylw at y modd y maent yn "llysgennad dros atal trais" ac yn cael gwybodaeth well drwy fod yn rhan o'r gymuned. Disgrifiodd aelodau cyswllt eu profiadau o weithio ochr yn ochr â'r VPU i sefydlu ac ymgorffori dull iechyd y cyhoedd o atal trais. Disgrifiodd llawer eu canfyddiadau o ba mor dda yr oedd rhanddeiliaid yn deall y dull hwn, a pha mor dda yr oedd y dull hwn wedi'i ymgorffori ar draws y system. Er bod yr holl aelodau cyswllt yn gallu gwneud sylwadau

cadarnhaol am bwysigrwydd ymgorffori dull iechyd y cyhoedd o atal trais, roedd eu profiadau o weithredu/hyrwyddo hyn yn wahanol yn dibynnu ar lefel eu hymwybyddiaeth o'r VPU.

*Pan welwn yr holl aelodau cyswllt o amgylch y bwrdd, rwy'n credu bod 30 neu 40 ohonom yn ein cyfarfod misol. Bellach mae gan bawb ddealltwriaeth dda o fanteision dull iechyd y cyhoedd. (AC, P22)*

*Ar draws yr holl asiantaethau dw i wedi gweithio gyda nhw, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, byddwn i'n bendant yn dweud y byddai'r wybodaeth a'r arweiniad ynghylch ACE a dull iechyd y cyhoedd wedi cynyddu'n aruthrol... rwy'n credu bod newid mewn ffocws o ran edrych ar yr hyn sy'n achosi'r trais, ai problem yn ymwneud â diod neu gyffuriau yw hon... Ond felly, pan edrychwch arni o safbwynt dull iechyd y cyhoedd, mae'n rhaid i chi fynd yn ddyfnach na hynny, mae'n rhaid i chi edrych arno fel afiechyd… Mae'n ymwneud ag edrych ar y darlun ehangach, ac rydyn ni'n mynd at wraidd y broblem. (AC, P5)*

*Roedd yn ymwneud â chael dylanwad y trydydd sector hefyd. Cefnogi gydag unrhyw beth a oedd yn digwydd o elfen hyrwyddo neu unrhyw beth y gallem helpu i'w siapio i ddatblygu rhywfaint o ddealltwriaeth, gan gyflwyno ein gwybodaeth o weithio gyda phobl ifanc a theuluoedd, ac ystyried dull diogelu hefyd. (AC, P18)*

*Rwy'n credu y bu newid pendant iawn o edrych yn ôl. (AC, P7)*

### Rhoi'r Dull Gweithredu ar Waith: Rhannu'r Hyn a Ddysgir ac Arbenigedd

Mae llwyddiant y VPU o ran newid y system yn gorwedd yng ngallu ei bartneriaid i ysgogi a thrawsnewid datblygiad a chyflawni gweithgareddau atal trais. Disgrifiodd llawer o aelodau cyswllt bwysigrwydd rhannu'r hyn a ddysgir ac arbenigedd, o ran gweithredu dull iechyd y cyhoedd o atal trais. Roedd llawer yn cydnabod bod y broses hon yn fwy na mynychu cyfarfodydd ac eiriol dros ddull iechyd y cyhoedd a disgrifio eu hymdrechion i ymgorffori'r dull hwn ar draws eu rhwydweithiau a'u partneriaethau. Roedd yn amlwg mewn llawer o'r cyfweliadau bod rhai partneriaid eisoes wedi gweld manteision y ffordd hon o weithio, tra bod eraill ond megis dechrau eu taith.

*Mae llawer ohono'n ymwneud â rhannu gwybodaeth ac edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud i'ch cynorthwyo i ledaenu'r neges gan leihau trais. (AC, P5)*

*Rwy'n credu hefyd ar lefel weithredol, mae natur bod yn rhan o raglen gydweithredol wedi ein galluogi i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau. (AC, P10)*

*Rwy'n ceisio cysylltu'r dotiau, a rhannu'r hyn a ddysgwyd, a gwneud yn siŵr wedyn bod unrhyw beth sy'n cael ei gomisiynu, y bobl sy'n cyflwyno'r darn hwnnw o waith yn deall rôl y VPU. (AC, P2)*

*Mae'n ymwneud â sut mae pob asiantaeth neu sut mae pob sefydliad yn gweithio ac yn rhannu arfer gorau ar sut mae hynny'n gweithio... nodi arferion gorau a'r hyn a ddysgwyd. (AC, P4)*

Disgrifiodd un aelod effaith y VPU ar oresgyn gweithio mewn seilos a'r heriau o allu ymateb yn gyflym i sefyllfaoedd sy'n newid.

*Roedd yna orgyffwrdd mawr neu botensial enfawr i gydweithio mwy... a daeth hyn yn fwy amlwg drwy gam-drin domestig neu drais yn y cartref, a bod yn ymwybodol o'n cynnig yn yr un rhanbarth. Pan fydd hynny'n digwydd, rwy'n credu bod pobl yn dal i weithio mewn seilos yn enwedig ar lawr gwlad. Ac mae pethau'n newid mor gyflym o ran yr hyn sy'n cael ei ariannu a*

*pha fath o gyllid a gwasanaeth sydd wedi bod ar gael, roedd yn dda iawn gwneud y cysylltiadau hynny'n gynnar [rydyn ni] wedi dechrau dweud 'rydyn ni yma, mae gennym yr ymyrraeth hon ac mae'n ddiogel ac yn effeithiol'. (AC, P10)*

## 3.2 Ymchwil, Gwerthuso a Chadw Gwyliadwriaeth

Un o uchelgeisiau allweddol y VPU yw sicrhau bod gwyliadwriaeth, ymchwil a gwerthuso trais yn sail i'r holl weithgaredd, gan sicrhau bod gweithgaredd yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael. Mae adroddiad gwerthuso VSAS Cymru (Quigg et al 2021) yn disgrifio sut mae rhannu a defnyddio data amlasiantaeth yn hanfodol i weithredu dull iechyd y cyhoedd. Sefydlwyd VSAS De Cymru yn 2014 gyda'r pwrpas o goladu a dadansoddi data ar drais o sawl ffynhonnell ledled Cymru; ymgorfforwyd y system yn VPU Cymru yn 2019. Roedd yr holl randdeiliaid a gafodd eu cyfweld ar gyfer y gwerthusiad system gyfan yn cydnabod pwysigrwydd ymchwil, gwyliadwriaeth a monitro. Mynegodd aelodau craidd eu hymdrechion i sicrhau dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan ddisgrifio eu buddsoddiad mewn rhannu data, ymchwil, gwerthuso a gwyliadwriaeth. Disgrifiodd aelodau cyswllt eu canfyddiadau a'u profiadau o weithredu'r dull hwn, gyda rhai yn tynnu sylw at y ffyrdd yr oeddent wedi ymgysylltu â'r uned i wella eu gwybodaeth yn y maes hwn (e.e. mynychu gweminarau). Roedd bron i ddwy ran o dair (71.1%, n=32/45) o'r ymatebwyr i arolwg gwerthuso WVSAS yn cytuno bod gweminarau VPU yn ddefnyddiol i'w gwaith.

Er ei bod yn amlwg o'r gwerthusiad system gyfan bod pawb a gyfwelwyd yn deall pwysigrwydd ymchwil a gwerthuso, roedd rhai o'r farn bod heriau o hyd i weithredu'r dull hwn ar draws y system, ond disgrifiwyd sut roedd y VPU yn gweithio gyda phartneriaid i oresgyn y rhwystrau hyn.

*Rydym yn casglu data gan lawer o wahanol sefydliadau ac yn casglu ac yn dadansoddi'r data hwnnw. Felly mae hynny'n dod o'r sector cyhoeddus... mae yna ystod eang o wahanol bobl sy'n darparu'r data. Yr hyn sy'n arbennig o ddiddorol am hynny yw eich bod chi'n sylwi lle mae pethau ar goll efallai o ran rhai elfennau. Felly efallai y bu cynnydd mawr yn y bobl sy'n mynd i'r ysbyty gydag anafiadau yn sgil trywanu, er enghraifft, ond mewn gwirionedd bu gostyngiad yn adroddiadau'r heddlu. Felly rwy'n credu bod cael y gorgyffwrdd hwnnw yn bwysig iawn. (Craidd, P3)*

*Pan fyddwch chi'n sôn am rannu data [rhwng] adrannau'r llywodraeth ac asiantaethau eraill, mae angen i ni fod yn gweithio mewn uned amlasiantaeth, mae angen rhoi awdurdod i ni gael y protocol rhannu gwybodaeth hwnnw ar waith lle y gallwn ni rannu gwybodaeth… .Os yw'n golygu amddiffyn yr unigolyn hwnnw neu atal trais. (AC, P4)*

Adleisiwyd y canfyddiadau hyn yn y gwerthusiad WVSAS, lle yr oedd 93.8% (n=45/48) o'r ymatebwyr i'r arolwg yn cytuno bod y VPU yn hwyluso rhannu data amlasiantaeth at ddibenion atal trais ledled Cymru ac 84% (n=42/50 ) yn cytuno bod y VPU yn gwella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer atal trais ledled Cymru. Trafodwyd rhwystrau ynghylch rhannu data yn ystod y gweithdy rhanddeiliaid, gan dynnu sylw at y ffaith bod y mecanweithiau i'r VPU rannu data yn gyfyngedig gan nad oedd y VPU yn endid cyfreithiol[4] ac felly nad oedd modd iddi ysgwyddo atebolrwydd. Codwyd nifer o bwyntiau penodol gan randdeiliaid (gan ddefnyddio nodiadau 'post-it' rhithwir):

[4] Mae VPU Cymru yn bartneriaeth a ffurfiwyd gan sawl sefydliad sydd ag endidau cyfreithiol ar wahân. Nid yw VPU Cymru yn sefydliad cofrestredig, ac felly ni all ffurfio endid cyfreithiol ei hun, felly, gan fod yn atebol am lywodraethu data.

- Diffyg dealltwriaeth ynghylch rhannu data/sail gyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth;
- Mae angen prosesau gwell a chyflymach i rannu data/datgelu ar hyn o bryd. Yn aml iawn mae'n rhy anodd gwneud hynny, ac mae hyn yn llesteirio prosiectau ac arloesedd;
- Pryderon ynghylch rhannu gwybodaeth a rhannu data; diffyg dealltwriaeth o'r polisi a phryder ynghylch pryd y mae'n iawn rhannu gwybodaeth â phartneriaid;
- Rhannu data - mae pawb yn dymuno rhannu ond mae'n anodd iawn rhoi hyn ar waith yn ymarferol, yn enwedig pan fydd yn ymwneud â gwybodaeth bersonol. Angen prosesau haws eu dilyn ac arbenigwyr yn eu harwain;
- Hyder i ddefnyddio data a'u rhannu - dulliau clir a hawdd i gymeradwyo rhannu (pryd, sut a gyda phwy).

Yn ystod cyfweliadau system gyfan, disgrifiodd rhai rhanddeiliaid y cyfathrebu a'r wybodaeth a rennir gan y VPU. Disgrifiodd llawer o'r aelodau cyswllt eu bod wedi derbyn gwybodaeth a diweddariadau gan y VPU; adleisiwyd hyn yng nghanfyddiadau arolwg WVSAS, a ganfu fod 81.6% (n=40/49) o bartneriaid yn cytuno bod y VPU yn gwneud yn dda o ran cyfathrebu ei gwaith a'r hyn a ddysgwyd. Disgrifiodd rhai rhanddeiliaid a gafodd eu cyfweld ar gyfer y gwerthusiad systemau cyfan nad ydynt bob amser yn darllen y wybodaeth y maent yn ei derbyn, ac ar brydiau, efallai na fydd rhywfaint o'r wybodaeth yn taro'r cywair priodol neu'n cynnwys gwybodaeth sy'n anghyfarwydd ar draws gwahanol sectorau/sefydliadau.

*Rwy'n credu bod y VPU yn dda iawn hefyd am anfon cylchlythyrau a diweddariadau cyson am yr hyn sy'n digwydd ac mae ganddi ddiweddariad penodol sy'n ymwneud â data amlasiantaeth, ac rwy'n hoff iawn o hynny, oherwydd mae hynny'n beth eithaf cymhleth i'w gyflawni. (AC, P2)*

*I fod yn blwmp ac yn blaen, ac yn onest, rwy'n derbyn eu hadroddiadau cynnydd, ond dw i ddim yn eu darllen bob tro... Rwy'n ymwybodol bod llawer o waith gwych yn cael ei wneud, ond a bod yn onest, dwi ddim wedi dilyn y datblygiadau, mae angen i'r data hanfodol fod yn flaenllaw yn y ddogfen honno. (AC, P12)*

*Rydyn ni'n cael negeseuon e-bost rheolaidd, ac mae'n rhaid i mi gyfaddef nad ydw i'n eu darllen yn iawn hanner yr amser... Dwi ddim yn credu bod unrhyw ddiffyg cyfathrebu o gwbl...os byddaf yn ei ddarllen, rwy'n dangos y mewnbwn i'm cydweithwyr. (AC, P21)*

*Dw i ddim yn credu bod pobl yn deall y jargon weithiau. (AC, P12)*

### Pecyn Cymorth ar gyfer Gwerthuso Rhaglenni Atal Trais (VPET)

Er mwyn meithrin gallu ymhlith darparwyr gwasanaethau a sicrhau bod ymyriadau atal trais yn cael eu monitro a'u gwerthuso, mae'r VPU (mewn cydweithrediad â LJMU) wedi datblygu VPET[5]. Mae'r VPET yn darparu gwybodaeth am beth yw gwerthuso, pam mae'n bwysig, sut i ddatblygu cynllun gwerthuso a sut i gasglu, dadansoddi ac adrodd ar ddata. Mae set o ddangosyddion hefyd wedi'u datblygu i gefnogi partneriaid i fesur canlyniadau. Adlewyrchwyd datblygiad y VPET mewn cyfweliadau â rhai aelodau craidd.

*Rydym wedi datblygu'r pecyn cymorth gwerthuso a phethau felly, er mwyn helpu darparwyr gwasanaethau i werthuso eu gwaith. Rwy'n credu bod sicrhau bod y math yma o arferion yn*

[5] Violence-Prevention-Evaluation-Toolkit.pdf (violencepreventionwales.co.uk)

*cael eu mabwysiadu'n fwy, yn bwysig iawn, oherwydd mae gennych yr ymyriadau gwych yma, ond does gennych chi ddim tystiolaeth i ddangos eu bod nhw'n gweithio. (Craidd, P3)*

*Mae'n ymwneud â chyflwyno hynny a sicrhau bod ein darparwyr a'n partneriaid yn gwerthuso eu gwaith fel y gallwn ddeall ac adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer atal trais. (Craidd, P19)*

Cynhaliwyd gweithdy ym mis Tachwedd 2020 gyda phartneriaid o wasanaethau a rhaglenni sy'n ymwneud â darparu ymyriadau atal trais VPU, er mwyn rhoi cyflwyniad i'r VPET ac i gynorthwyo mynychwyr i ddechrau nodi canlyniadau a dangosyddion a datblygu cynlluniau ar gyfer eu gwerthuso. Mynychwyd y gweithdy gan 30 o bartneriaid. Er bod llawer o bartneriaid wedi nodi bod ganddynt brosesau ar waith i weithredu prosesau gwerthuso a monitro, disgrifiodd llawer nad oedd ganddynt lawer o adnoddau i ymchwilio i'r canlyniadau yn llawn, oherwydd capasiti cyfyngedig yn y gwasanaeth. Y gobaith yw y bydd partneriaid yn defnyddio'r VPET i ddangos tystiolaeth bellach o effaith y VPU. Bwriedir mynd ar drywydd priodoldeb a dichonoldeb y VPET gyda phartneriaid y tu hwnt i 2020/21.

## 3.3 Canlyniadau ac Effaith y VPU

Ar gyfer y gwerthusiad system gyfan, gofynnwyd i'r holl gyfweleion am eu barn ar ganlyniadau ac effaith y VPU. Gallai llawer ddisgrifio eu profiadau cadarnhaol o weithio gyda phartneriaid ar draws sawl asiantaeth i ymgorffori dull yn seiliedig ar dystiolaeth o atal trais. Roedd cytundeb ar draws yr aelodau craidd a chysylltiedig bod y VPU wedi dechrau cael effaith ar y 'system gyfan', drwy broses eiriol, addysg, gweithio'n integredig a meithrin gallu. Er bod rhai o'r rhanddeiliaid wedi cyfeirio at hyn yn eithaf cyffredinol, darparodd eraill enghreifftiau penodol ynghylch sut roedd y VPU wedi eu cefnogi i gyflawni canlyniadau cadarnhaol yn eu sefydliadau, megis cynnydd mewn gwybodaeth.

*Rwy'n credu ein bod eisoes wedi gwneud newid mawr o ran newid y system. Ac felly, hyrwyddo ymarfer ataliol, ymarfer yn seiliedig ar dystiolaeth, gwaith amlasiantaeth a gweithio ar sail asedau a gweithio rhag-gymdeithasol... rwy'n credu ein bod ni eisoes wedi llwyddo i gymryd camau breision yn y maes hwnnw. (Craidd, P19)*

*Gallwn ddangos tystiolaeth bod yr hyn yr ydym yn ei wneud yn cael effaith, yn cynyddu gwybodaeth pobl ac yn gwneud iddynt sylweddoli beth sy'n digwydd. Ac rydym hefyd yn gweld bod ffurflenni adroddiadau, yn aml iawn, ffurflen ddienw wedi cael eu cyflwyno i ni am amheuaeth o droseddoldeb yn yr ardaloedd y byddwn yn mynd iddynt. (AC, P5)*

*Mae'n ymddangos eu bod nhw'n gwneud gwaith da. Rwyf wedi gweld pethau oherwydd bod nifer y bobl wedi ymgysylltu â nhw, ac ati. Heb gymhariaeth briodol, mae'n anodd gwybod beth fyddai wedi digwydd pe na baen nhw wedi bod yno? Fy nheimlad i yw na fyddai'r bobl hyn wedi ymgysylltu ag unrhyw un. (AC, P21)*

*O ran fy ngwasanaeth penodol i...addysgwyd y swyddogion i'w helpu i gefnogi plant, gan sicrhau canlyniad llwyddiannus. Rwy'n gwybod bod gwerthuso mentrau'n digwydd, a bod yr hyn y mae'r VPU yn ei sefydlu a'i wneud yn rhan o'r system a'r broses i raddau helaeth. (AC, P7)*

Adlewyrchwyd y canfyddiadau hyn hefyd yn y gwerthusiad o WVSAS, lle yr oedd 89.4% (42/47) yn cytuno bod y VPU yn ychwanegu gwerth at weithgaredd presennol o ran atal trais ac ymateb i drais. Ar draws y gwerthusiad system gyfan, roedd rhanddeiliaid yn gallu rhoi sylwadau gwell ar gyfeiriad y gwaith, yn hytrach na gallu tynnu sylw at ganlyniadau penodol y mae'r VPU wedi'u cyflawni. Disgrifiodd mwyafrif helaeth y rhanddeiliaid yr anawsterau o fesur effaith y VPU a dangos tystiolaeth o hynny ar hyn o bryd, gyda rhai yn egluro na fyddai'r canlyniadau i'w gweld am nifer o flynyddoedd.

Er gwaethaf hyn, roedd pawb yn cytuno bod y VPU wedi cefnogi newid cadarnhaol a fyddai'n arwain at effaith gadarnhaol yn y dyfodol.

> *Rwy'n cael y teimlad ar hyn o bryd bod y rhan fwyaf o'r canlyniadau'n ymwneud â 'gadewch i ni ddeall y broblem yn well'. Sydd ddim yn ganlyniad mewn gwirionedd, mae'n rhan o ddamcaniaeth newid er mwyn arwain at ganlyniad. Felly dwi'n dal i feddwl ein bod ni ar y cam 'mae'n rhy gynnar i ddweud'. (AC, P8)*

> *Mae'n eithaf anodd weithiau i ddangos tystiolaeth o bethau yn tydi, pan allai rhai pethau gymryd cryn amser i ddod i'r amlwg, mae yna ryw fath o effeithiau tymor byr cyflym y gallwch chi eu gweld weithiau yn does? Ond weithiau mae'n cymryd ychydig mwy o amser ac efallai nad yw 12 mis yn ddigon. (Craidd, P3)*

> *Dwi'n credu eu bod yn gwneud gwaith da iawn, dyna sut mae'n ymddangos, dwi ddim yn gwybod a fyddai'r data'n ategu hynny, neu a yw'n rhy gynnar i ddefnyddio'r data'n iawn. Dwi'n credu, yn y bôn, ei fod yn gwneud gwaith da. Dwi'n credu ei bod yn dal yn rhy gynnar. Ydw. Dwi'n credu mai'r peth dewr i'r Llywodraeth, neu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu neu bwy bynnag ei wneud fyddai dweud, gwrandewch, allwn ni ddim gwerthuso hyn yn iawn, mewn 12 mis neu 18 mis. Mae angen i ni roi pum mlynedd iddo. (AC, P21)*

> *Ar hyn o bryd, mae'n fath o broses ddisgrifiadol, mae'n debyg, sy'n ceisio gweithio allan sut beth yw hyn? Ond yna rwy'n gobeithio y byddwn ni'n cyrraedd sefyllfa lle y gallwn ni feddwl am ddeall pa effaith rydyn ni'n ei chael, ac rwy'n credu y byddwn ni'n cyrraedd y nod. Ie, dwi ddim yn gwybod a fydd yn digwydd yn y 12 mis nesaf... mae'n debyg y gallwch chi ddangos tystiolaeth o rai o'r canlyniadau tymor byr hyn yn eithaf da, yn eithaf braf. Ond mae'r rhai tymor canolig i dymor hir yn cymryd ychydig flynyddoedd. (Craidd, P19)*

Adlewyrchwyd y canfyddiadau hyn hefyd yn y gweithdy i randdeiliaid, lle roedd llawer yn cytuno, er bod proffil y VPU yn tyfu'n llwyddiannus ac yn hwyluso diogelu a gweithio mewn partneriaeth, gall fod yn anodd dangos tystiolaeth o'r canlyniadau hyn yn y tymor byr. Fe wnaeth astudiaeth ddichonoldeb yr Uned Lleihau Trais (VRU) gydnabod y bydd effaith VRUs yn 'raddol ac yn cronni dros amser' (Y Swyddfa Gartref, 2020, t.11). Cododd rhai rhanddeiliaid effaith COVID-19 ar dueddiadau trais hefyd yn ystod y gweithdy, o ran yr heriau wrth fesur canlyniadau ac effaith y VPU. Er y gallai tueddiadau mewn trais fod wedi lleihau mewn perthynas ag economi'r nos, codwyd pryderon ynghylch effaith y cyfyngiadau symud ar drais domestig a llinellau cyffuriau, a chyffredinrwydd profiadau sy'n cynyddu'r risg o ymwneud â thrais (e.e. amddifadedd, lefelau diweithdra, ac amlygiad i drawma). Mae hyn yn adleisio ymchwil a wnaed i ddeall effaith COVID-19 ar drais ac ACEs a brofir gan blant a phobl ifanc yng Nghymru (Newbury, Barton, Snowdon a Hopkins 2020).

## Enghreifftiau o Ymarfer sy'n cael Effaith

Drwy gydol y cyfweliadau â rhanddeiliaid, disgrifiodd y cyfranogwyr nifer o enghreifftiau penodol o ymarfer effeithiol, lle roedd y VPU wedi cyflwyno menter a oedd wedi arwain at ganlyniadau clir neu lle y disgrifiwyd enghreifftiau penodol o newid ar lefel system. Rhoddir crynodeb o nifer o enghreifftiau isod.

**Gwaith yr Eiriolwyr Iechyd a Chymorth i Ferched Cymru: Tîm Atal Trais y GIG**

"Roedd croesgyffwrdd mawr neu botensial i weithio'n fwy cydweithredol gyda'r Eiriolwyr Iechyd. Roeddent yn gweld pobl yn dod i mewn wedi'u hanafu oherwydd achosion posibl o gam-drin domestig neu drais yn y cartref, a bod yn ymwybodol o'n cynnig o fewn yr un rhanbarth, y ddau beth hynny...rwy'n credu bod pobl yn dal i weithio mewn seilos yn enwedig ar lawr gwlad ac mae pethau'n newid mor gyflym o ran yr hyn sy'n cael ei ariannu a pha wasanaethau sydd ar gael. Roedd yn dda iawn gwneud y cysylltiadau hynny'n gynnar, a dechreuodd yr Eiriolwyr Iechyd hynny ddweud 'rydym yma, mae gennym yr ymyrraeth hon, sy'n ddiogel ac yn effeithiol'. A gall y gwasanaeth fanteisio ar hynny, yn hytrach na'r teimlad bod angen i chi wneud hynny ar eich pen eich hun." (AC, P10)

**Rôl y VPU o ran addysgu partneriaid:**

"Mae popeth yn ymwneud ag addysg, os nad yw rhywun yn gwybod rhywbeth, dydyn nhw ddim yn gallu ei ddeall. Ac felly unwaith maen nhw'n deall rhywbeth, er cymaint y gallai pobl fod wedi rhannu dulliau, a phethau felly, mae'n ymwneud â chwalu'r rhwystrau hynny'n raddol"(AC, P5)

"Rydyn ni bron fel partner mud mewn rhai ffyrdd, ond serch hynny, partneriaeth bwysig gydag addysg. Ar hyn o bryd, rwy'n credu bod 68 o heddweision ledled Cymru. Maen nhw'n cael eu galw'n swyddogion heddlu cymunedol ysgolion. Fe wnaethant rannu eu hamser yn fras 50/50 rhwng sefyll o flaen y dosbarth a 50/50 ar weithgareddau plismona a diogelu cefnogol."
(AC, P7)

Grwpiau sy'n agored i niwed:

"Felly mae pawb, o safbwynt gorfodi rheolau mewnfudo'r Swyddfa Gartref, mae pawb sy'n cyrraedd y DU, o dramor, yn anghyfreithlon, yn cael eu hystyried yn unigolion bregus, maen nhw wedi dod i mewn i'r DU yn anghyfreithlon, a does ganddyn nhw ddim hawl i gael arian cyhoeddus, does ganddyn nhw ddim hawl i weithio, does ganddyn nhw ddim hawl i astudio, dim hawl i dŷ. Felly oherwydd eu bod yma'n anghyfreithlon, dydyn nhw ddim yn gallu cael gafael ar unrhyw wasanaethau, felly o'r dechrau'n deg, mae'r unigolion hynny'n agored i niwed, felly maen nhw'n agored i droseddu, maen nhw'n agored i fod yn ddigartref, maen nhw'n agored i gael problemau iechyd meddwl, a'r ystod eang o bryderon eraill sy'n ymwneud â'r unigolyn hwnnw tra bydd yn y wlad hon yn anghyfreithlon... gan weithio gyda'r ystod oedran, fy mwriad fyddai oherwydd ein bod ni'n Swyddogion Gorfodi Gweithredol, pan fyddwn ni allan yn gwneud ein gwaith, gallai fod yn adeilad preswyl neu fasnachol, efallai y byddwn yn dod ar draws unigolyn a allai fod o fewn yr ystod oedran [dan 25], neu efallai na fydd o fewn yr ystod oedran. Os nad yw o fewn yr ystod oedran, nid yw'n golygu ein bod ni'n mynd i anwybyddu'r unigolyn hwnnw, rydyn ni'n dal i fynd i helpu'r unigolyn hwnnw, bydd yn rhaid i ni weithredu ac ymyrryd os gallwn ni gynorthwyo'r unigolyn hwnnw. Felly mae'n ymwneud â delio ag unigolion yn y cymunedau. Felly mae'n ymwneud ag edrych ar bobl sy'n agored i niwed... [mae hyn] yn ymwneud ag ystod eang o bethau, gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant ac ati a'r holl fathau eraill o drais a niwed... felly pan fyddwn ni'n gweithio mewn cymunedau, gan adeiladu gwytnwch mewn cymunedau drwy gynnal cyngorfeydd a chyfarfodydd, yn debyg iawn i fforymau, a meithrin perthnasoedd mewn cymunedau i ganiatáu i unigolion gael llais os oes angen, gallant ddod atom ni a siarad â ni am eu pryderon." (AC, P4)

Cynllunio ymateb i ddigwyddiadau tyngedfennol:

Disgrifiodd nifer o randdeiliaid weithgaredd 'ymateb i ddigwyddiad tyngedfennol' yr oeddent wedi cymryd rhan ynddo, lle bu partneriaid amlasiantaeth yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu ymateb i ddigwyddiad damcaniaethol.

“Rwy'n teimlo bod [hwn] yn ddarn parhaus o waith, oherwydd maen nhw wedi ailedrych gwpwl o weithiau, ond rydyn ni wedi gwneud math o ymarfer o amgylch bwrdd, lle rydyn ni wedi cael ein cyflwyno fel aelodau amlasiantaeth o'r VPU gyda senario - rwy'n credu ei fod yn rhywbeth i'w wneud ag achosion lluosog o drywanu sy'n gysylltiedig â gangiau yng Nghaerdydd - a gweithio allan beth fyddai rolau pob un o'r asiantaethau allweddol o ran mynd i'r afael â nhw yng ngwres y foment, pa wybodaeth fyddai gan bob un ohonynt. Felly er enghraifft, roedd fy mewnbwn i hynny yn ymwneud â phe bai'r troseddwyr yn hysbys, yna beth fyddai'r gwasanaeth carchardai a phrawf yn ei wybod am y drwgweithredwyr hynny a fyddai'n ddefnyddiol i helpu i'w hadnabod a'u canfod, a'u harestio er mwyn rheoli'r risg, meddwl am y bobl eraill a allai fod mewn perygl neu hyd yn oed yn rhan o'r drosedd honno eu hunain... ac adeiladu ar hynny, er mwyn sicrhau pe bai'r gwaethaf yn digwydd, ac mae'r math hwnnw o ddigwyddiad yn digwydd yng Nghymru, rydym wedi ein paratoi'n well ar ei gyfer. Ac rwy'n credu bod fy nghefndir yn golygu bod y math hwnnw o beth yn creu argraff fawr arna i. Oherwydd ein bod yn gwneud hynny yn y gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf. Rydyn ni'n gwneud llawer o ymarferion paratoi ar bethau fel sefyllfaoedd lle mae rhywun yn cael ei gymryd yn wystlon ac mae hynny'n gallu digwydd, gryn dipyn yn y carchar, ond pan mae'r sefyllfaoedd hynny codi, rydyn ni'n bwrw ymlaen gan fod gennym ymateb proffesiynol i ddelio â hynny. Ac yn y pen draw, mae'n ymwneud â delio â'r mater yn ddiogel fel nad oes unrhyw un yn cael ei niweidio”. (AC, P2)

“I mi, un o'r pethau a oedd yn wahanol iawn, iawn oedd ein bod wedi cael ymarfer o amgylch y bwrdd fel tîm ar sut y byddem yn ymateb pe bai cynnydd mawr mewn troseddau cyllyll yn rhywle fel Caerdydd ac fe wnaethom ni gynnal ymarfer pen-bwrdd ac roedd hynny'n beth da, oherwydd doedd llawer o ddarparwyr yn arbennig ddim yn gwybod yn fanwl beth oedd y lleill yn ei wneud, felly roedd hynny'n ddefnyddiol. O hynny fe wnaethom lunio cynllun ymateb i ddigwyddiadau tyngedfennol, gan nodi pe bai cynnydd, dyma'r math o beth y byddem yn ei wneud. Ac ychydig wythnosau'n ddiweddarach, cawsom broblem fawr gyda throseddau cyllyll yng Nghaerdydd, lle roedd gangiau'n trywanu ei gilydd, sawl un yn cael ei drywanu, pobl ifanc iawn y tu allan i ysgolion, ac roedd yn sefyllfa ddifrifiol iawn. Ond fe wnaethom lwyddo i ddod at ein gilydd ar unwaith fel grŵp ymateb i ddigwyddiadau tyngedfennol, galw'r holl bartneriaid ynghyd a chydlynu ymateb na fyddai wedi digwydd fel arall yn fy marn i... er ei fod yn ymateb tyngedfennol roedd pob elfen o'r VPU yn gallu cyfrannu at hynny gan gynnwys iechyd y cyhoedd a wnaeth ychydig o ddadansoddiad ac ymchwil cyflym amser real ac roedd modd i'r darparwr gamu i'r adwy gyda chapasiti ychwanegol, roedd y gwasanaeh prawf yn gallu edrych ar oedolion a oedd yn camfanteisio ar blant yn droseddol, mae'n enghraifft dda o sut y gwnaeth bawb gydweithio” (Craidd, P1)

Cam-drin Plant yn Rhywiol:
"Rydw i yno i weithredu fel y person sy'n ymdrin â cham-drin plant yn rhywiol, felly, arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol. Nid wyf yn siŵr a ydych chi'n ymwybodol o waith y VPU, ond fyddwn i ddim yn dweud eu bod yn gwneud llawer ynglŷn â cham-drin plant yn rhywiol. Maen nhw'n ei gynnwys yn eu hadroddiadau, ond o ran gwneud unrhyw waith wedi'i dargedu tuag at gam-drin plant yn rhywiol, dydyn nhw ddim yn gwneud dim, ond dyna fy rôl i...fe wnes i gynnal sesiwn gydag aelodau eraill o'r VPU a chanolbwyntio ar gam-drin plant yn rhywiol, ac rydym wedi cyflwyno sesiwn i swyddogion prawf. Fyddwn i ddim wedi cael y cysylltiad hwnnw oni bai am y VPU" (AC P6)

## Hwyluswyr Newid Cadarnhaol

Ymchwiliodd y gweithdy i randdeiliaid ar systemau cyfan i fecanweithiau newid. Yma, amlygwyd ystod o hwyluswyr a oedd yn dod o dan ddwy thema gyffredinol:

**Dull y VPU o newid system:** Nododd rhanddeiliaid fod y model VPU wedi bod yn effeithiol o ran hwyluso newid, lle roedd partneriaethau clir a gwaith amlasiantaeth wedi'u cefnogi a'u cydgysylltu, a arweiniodd at gyd-ddealltwriaeth eang o ysgogwyr systemig trais a nod cyffredin.

**Adeiladu'r sylfaen dystiolaeth:** Disgrifiodd y rhanddeiliaid sut roedd y VPU wedi datblygu'r sylfaen dystiolaeth ar atal trais a defnyddio'r wybodaeth hon i dargedu ymyriadau.

## Effaith COVID-19

Disgrifiodd llawer o randdeiliaid y ffyrdd yr oedd COVID-19 wedi effeithio arnynt hwy a'u gwaith. Roedd pawb yn cytuno bod y VPU wedi gweithio'n gyflym i fabwysiadu dull iechyd y cyhoedd o ddeall effaith COVID-19 ar drais, coladu'r data diweddaraf a gweithio gyda phartneriaid amlasiantaeth i sicrhau bod hyn yn cael ei rannu a'i ddefnyddio gan weithwyr proffesiynol. Amlygwyd effaith COVID-19 ar feysydd fel cam-drin domestig a llinellau cyffuriau, effeithiau cysylltiedig y pandemig ar ddiweithdra ac ailagor economi'r nos. Disgrifiodd y VPU sut maen nhw'n cynnal nifer o weithgareddau ymchwil i ddarparu tystiolaeth ynghylch camau gweithredu'r dyfodol, gan gynnwys asesiad o anghenion iechyd.

> *Rwy'n credu bod COVID wedi bod yn her... i rai o'r asiantaethau, maen nhw wedi bod yn canolbwyntio'n llwyr bron ar COVID. Felly mae cael y sylw y byddech chi wedi arfer ei gael, fel uned atal wedi bod yn anoddach. Felly yn arbennig o ran Llywodraeth Cymru, cael fforymau gyda nhw, nid yw llawer o'r busnes arferol hwnnw y gallech chi fanteisio arno bob amser yn digwydd. (Craidd, P1)*

> *Maen nhw (y VPU) wedi bod yn ymatebol iawn yng ngoleuni COVID, gan wrando ar bartneriaid a newid y blaenoriaethau hynny. Felly mewn gwirionedd, oherwydd ein bod ni'n deall y cynnydd mewn cam-drin domestig sy'n gysylltiedig â'r pandemig, ac yn enwedig cyfyngiadau a chyfnodau clo, maen nhw wedi bod yn eithaf agored o ran newid eu blaenoriaethau. (AC, P2)*

> *Enghraifft o hynny fyddai ein bod ni, yn ystod y cyfnod clo cyntaf, yn cydnabod bod angen dechrau hyfforddi swyddogion ysgolion yn benodol ar sut y gallent gysylltu â'u hysgolion, a sut y gallent fod yn cefnogi plant a phobl ifanc orau, gan weithio gyda'r VPU, a threfnu diwrnod hyfforddi i'r swyddogion gymryd rhan ynddo. (AC, P7)*

*Mae mathau eraill o droseddau yn deillio o COVID, [rydym] wedi darganfod bod llawer o weithgaredd llinellau cyffuriau'n digwydd... A'r pryder yw pan fydd economi'r nos yn dechrau ailagor, beth fydd y sefyllfa wedyn, oherwydd gyda COVID, yr hyn rydych chi'n ei ddarganfod yw bod llawer o newid wedi bod, edrychwch ar yr anghydraddoldeb oherwydd y pandemig, felly mae'n ymwneud â phobl sydd wedi colli eu swyddi, ac ati... felly beth ydych chi'n mynd i'w weld yn naturiol yw newid yn statws economaidd-gymdeithasol unigolion, a'r effaith y bydd hynny'n ei chael ar ymddygiad mewn cymunedau. (AC, P4)*

Disgrifiodd llawer o randdeiliaid effaith y pandemig COVID-19 ar weithio mewn partneriaeth, gan fyfyrio'n benodol ar effaith y newid i ymgysylltu ar-lein. I lawer o aelodau craidd, disgrifiwyd y trawsnewidiad hwn fel un syml ac un na chafodd effaith negyddol ar ymgysylltu â phartneriaid. Ar gyfer aelodau cyswllt, weithiau roedd hyn wedi effeithio ar eu gallu i adeiladu rhwydweithiau newydd.

*O ran ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithio gyda gweithwyr proffesiynol, rydym wedi parhau i ymgysylltu drwy weminarau. Rwy'n credu ein bod ni wedi cynnal pedwar gweminar ym mis Mai, ac mae gennym dri arall wedi'i drefnu ar gyfer dechrau 2021. Felly mae hynny wedi bod yn gyfnod pontio eithaf hawdd, byddwn i'n dweud, oherwydd yn amlwg, mae pawb yn dal i weithio, maen nhw dal wrth eu desg... Rydyn ni wedi gallu cynnal gweminarau, ac rydyn ni wedi cael cyfraddau eithaf da yn ymuno ar gyfer y rheini hefyd ac adborth da (Craidd, P3)*

*Cyn COVID, byddem wedi gorfod llogi ystafell, felly byddai digwyddiad dwy neu dair awr wedi bod yn hanner diwrnod, neu fwy hyd yn oed, oherwydd amser teithio, ac efallai na fyddai wedi gweithio oherwydd bod angen i bobl deithio. Felly gwelwyd llwyddiannau mawr, o ran tactegau ac o ran gallu cyflawni rhywfaint o hynny. (Craidd, P15)*

*Yn amlwg, dw i ddim wedi dod i adnabod pobl cystal ag y byddwn i pe bai pawb yn y swyddfa gyda'n gilydd. Felly mae'n debyg y gallech chi ddweud pe byddem yn y swyddfa gyda'n gilydd, byddwn i'n teimlo mwy o gysylltiad â nhw. Ond o ran cyflawni'r VPU, fyddwn i ddim yn gwybod mewn gwirionedd. Ac oherwydd y darn o waith maen nhw wedi gofyn i mi fod yn rhan ohono, rydyn ni wedi gallu gweithio'n iawn ar-lein. Felly ie, ond yn bersonol, i mi, bydden i'n dweud bod creu cysylltiadau a rhwydweithio wedi cael effaith ar hynny o bosibl. (AC, P6)*

Yn weithredol, disgrifiodd yr aelodau sut roedd COVID-19 wedi effeithio ar eu gallu i gyflawni eu rhaglenni a'r heriau cysylltiedig lle roedd angen i bartneriaid flaenoriaethu gweithgaredd COVID-19.

*Rwy'n credu bod a wnelo llawer o'r rhwystrau â chyfyngiadau'r partneriaid dan sylw. Felly, er enghraifft...am ran helaeth o'r cyfnod clo cyntaf, cefais fy nhynnu o fy swydd y byddwn i wedi'i gwneud o ddydd i ddydd a chanolbwyntio ar waith blaenoriaeth gydag achosion o gam-drin domestig yn y gwasanaeth prawf, oherwydd yn y pen draw, mae'n rhaid i ni flaenoriaethu yn seiliedig ar risg i'r cyhoedd. Ac roedd yn rhaid i rywfaint o fy ngwaith strategol tymor hwy gael ei roi i'r naill ochr i sicrhau ein bod yn gwneud y gwaith diogelu'r cyhoedd. Rwy'n gwybod nad yw hynny'n unigryw i mi, byddai hynny wedi bod yn gyffredin i lawer o'r partneriaid a oedd yn ymwneud â'r VPU. (AC, P2)*

*Rwy'n credu bod llawer o bobl hefyd wedi cael eu symud o'r math o waith y bydden nhw'n ei wneud o ddydd i ddydd i feysydd eraill yn eu sefydliad ac mae wedi effeithio ar eu gallu i gael y math hwnnw o ymgysylltiad â'r VPU. (AC, P22)*

*Cafodd llawer o fy ngwaith ei ohirio dros dro tra roeddwn i ar secondiad i wneud y math hwnnw o waith...allen ni ddim bwrw ymlaen â'r ymyriadau...ar ôl i ni ddychwelyd i ryw fath o norm... roeddwn i'n gweithio ar ddau beth...Felly daeth hynny i ben. (AC, P4)*

## 3.4 Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

Gofynnwyd i randdeiliaid am eu barn ar ddyfodol y VPU. Disgrifiodd llawer bwysigrwydd tystiolaeth, o ran sicrhau bod yr holl weithgaredd yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael ei werthuso'n effeithiol. Roedd llawer yn gweld hwn fel cyfle i'r VPU barhau i ehangu a thyfu, o safbwynt systemau.

*Rwy'n credu mai'r peth nesaf fyddai sicrhau bod yr hyn rydyn ni'n ei gomisiynu yn seiliedig ar dystiolaeth. A dim ond gweithio i hyrwyddo ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth ledled Cymru. (Craidd, P19)*

*Rwy'n gobeithio y bydd datblygiad yr elfennau partneriaeth yn parhau. Ac un peth sydd wedi bod yn bwysig iawn i mi yw'r ffaith mai un o'r egwyddorion sylfaenol yw'r ffaith bod gweithgaredd yn seiliedig ar ymchwil, ac felly gallwn symud ymlaen yn wybodus a byddwn mewn gwirionedd yn gwella canlyniadau (AC, P7)*

*Yng Nghymru, yr hyn rydyn ni wedi gweld llawer ohono dros y 10 mlynedd diwethaf yw cynlluniau peilot sy'n rhoi cynnig ar bethau sy'n ymwneud ag atal trais. Ac yna maen nhw'n dod i ben, ac yna mae'r peth nesaf yn ymddangos, ac os ydych chi o gwmpas yn ddigon hir, fel fi sydd wedi gweithio yn y sector hwn ers dros 20 mlynedd, mae'r un pethau'n dod yn ôl dro ar ôl tro. Felly rwy'n gobeithio bod y VPU yn llwybr da i ddod â phawb ynghyd i gadw'r momentwm hwnnw wrth symud ymlaen, yn hytrach nag ailadrodd yr un pethau. (AC, P2)*

Soniodd llawer o randdeiliaid am yr angen i weithgaredd yn y dyfodol ganolbwyntio ar ymgysylltu â chymunedau a phobl ifanc ar lawr gwlad, gan ddisgrifio pwysigrwydd sicrhau bod eu barn yn llywio gweithgaredd VPU a thystiolaeth o ganlyniadau. Adlewyrchwyd hyn hefyd yn y gweithdy rhanddeiliaid.

*Ar hyn o bryd, rydyn ni'n dal i weithredu o'r brig i lawr i raddau, sydd ond yn adlewyrchiad o'r ffaith ein bod ni wedi bod yn sefydlu ein hunain... gweithio gydag ardaloedd lleol i sefydlu ychydig mwy o rwydwaith ar lawr gwlad, fel ein bod yn gallu deall beth sy'n digwydd yn lleol, ond hefyd fel y gallwn lywio ymarfer lleol a helpu i ddylunio'r partneriaethau lleol hynny. (Craidd, P19)*

*O'n safbwynt ni, mae'n ymwneud â gwthio hynny ymlaen ac edrych i ble rydyn ni'n mynd o'r fan honno yma nawr, beth sydd ei angen ac edrych ar sut y gallwn ymgorffori pobl ifanc a allai fod yn y VPU, yn ogystal â sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a'u bod yn ymgysylltu'n gyson yn hytrach nag o dro i dro. (AC, P18)*

Yn ystod y gweithdy i randdeiliaid, gofynnwyd i'r mynychwyr am eu barn ynghylch beth ddylai canlyniadau tymor canolig a thymor hwy y VPU fod. Mae'r rhain wedi'u codio yn themâu ac fe'u cyflwynir isod (Tablau 2 a 3). Mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at y ffaith bod llawer o'r canlyniadau yr oedd partneriaid yn teimlo eu bod yn bwysig i'r VPU eu cyflawni eisoes wedi'u cynnwys yn y model rhesymeg presennol. Fodd bynnag, roedd y canlyniadau ychwanegol a nodwyd yn canolbwyntio ar ddulliau Cymru gyfan o atal trais, gan gynnwys casglu data, mecanweithiau atgyfeirio ac adfer COVID (nodir y canlyniadau sydd eisoes yn cael eu hadlewyrchu ym model rhesymeg VPU 2020/21 gyda seren*).

Tabl 2: Canlyniadau VPU tymor canolig

**Canlyniadau cymunedol**

- Mae gwell dealltwriaeth gan y cyhoedd o'r ffactorau sy'n ysgogi ac yn lliniaru trais a nodi'r ysgogiadau i'r cyhoedd feddwl beth allant ei wneud i gefnogi lleihau trais*.
- Mwy o ddealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o sut/ble i gael help i fynd i'r afael ag ymddygiad camdriniol/treisgar* (symud o'r tymor byr i'r tymor canolig).
- Mae gan aelodau'r gymuned y pŵer i ymyrryd yn ddiogel ac atal trais drwy raglenni i'r rhai sy'n dyst i drais*.
- Mae sefydliadau ffydd yn cael eu cynnwys a'u grymuso i ddarparu rhaglenni atal trais* (a gynrychiolir yn fras fel 'gwasanaethau/sefydliadau').
- Gostyngiad mewn trais ymhlith y cymunedau hynny sydd fwyaf mewn perygl*.
- Argaeledd cyfartal i gefnogi oedolion yn ogystal â phobl ifanc ac oedolion ifanc*.

**Addysg**

- Mae pob plentyn yng Nghymru yn derbyn addysg perthnasoedd iach ar sail tystiolaeth fel rhan o ddull ysgol gyfan o atal trais ac atal ACE*.
- Clywir llais y plentyn ac mae pob plentyn yn cael addysg atal trais*.
- Caiff y rhaglen addysg ei diogelu gyda'r sicrwydd o gyllid.

**Dadansoddi, gwyliadwriaeth a gwerthuso**

- Rhennir gallu dadansoddol ar draws sefydliadau sy'n arwain at well dealltwriaeth o drais ledled Cymru*.
- Sefydlir dangosyddion i fesur canlyniadau sy'n gysylltiedig ag atal a llywio'r ddealltwriaeth epidemiolegol o drais yng Nghymru.
- Mae cronfa aml-asiantaeth a rennir o ddata ar drais ar gael, sy'n darparu dealltwriaeth glir o natur a maint y broblem, ac yn caniatáu i wasanaethau gael eu targedu ac asesu ymyriadau*.
- Mae system casglu data safonol ar waith ar gyfer atal trais yn Ymddiriedolaethau GIG Cymru.

**Effaith ar y system gyfan**

- Mae ymarfer effeithiol yn cael ei gynyddu ar draws Cymru*.
- Mae capasiti ledled Cymru i hunanatgyfeirio ac ar gyfer atgyfeirio amlasiantaethol (y tu hwnt i gyfiawnder troseddol) at wasanaethau diogel, effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i fynd i'r afael â/newid yn ymwneud ag ymddygiadau camdriniol ar y cyfle cyntaf.
- Mae holl asiantaethau'r sector cyhoeddus a gwirfoddol yng Nghymru yn sefydliadau trawma-wybodus ac ACE-wybodus (TrACE)*.
- Mae cyflogwyr a sefydliadau yn chwarae rhan weithredol yn y broses o atal trais drwy raglenni yn y gweithle sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Gallwn ddangos tystiolaeth o ymarfer atal trais croestoriadol, amrywiol a chynrychioliadol effeithiol.
- Mae'r holl ymyriadau atal trais yng Nghymru yn seiliedig ar dystiolaeth (tystiolaeth gadarn o ymarfer effeithiol neu wrthi'n cael eu gwerthuso)*.
- Cefnogir sefydliadau gydag adfer ar ô COVID ac mae adnoddau'n cael eu cyfuno i atal dyblygu gwaith.

Tabl 3: Canlyniadau tymor hwy

- Cymdeithas lle mae trais yn cael ei ystyried yn annerbyniol*.
- Mae trais yn fusnes i bawb ac mae pobl yn cael eu grymuso i gymryd cyfrifoldeb dros atal trais*.
- Mae pobl yng Nghymru wedi cynyddu teimladau o ddiogelwch gartref ac yn eu cymuned leol*.
- Mae'r VPU mewn sefyllfa dda i wneud cysylltiadau rhwng blaenoriaethau'r Swyddfa Gartref a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a gall gefnogi nifer o bartneriaid i gyflawni newid drwy osod amcanion cyffredin*.

## Cyfeiriad Strategol a Gweithredol

Adeg cynnal y cyfweliadau (rhwng Ionawr-Mawrth 2021), nid oedd cynllun gwaith y VPU ar gyfer y 12 mis i ddod wedi'i gadarnhau eto. Disgrifiodd llawer o randdeiliaid yr angen i sicrhau bod gan y VPU gynllun clir ar gyfer y dyfodol, gyda rhai yn gweld diffyg eglurder o ran ei ffocws a'i huchelgais strategol. Er y cydnabuwyd bod adeiladu perthnasoedd, partneriaid a thystiolaeth yn ffocws cychwynnol pwysig i'r VPU, roedd teimlad bod angen i'r ffocws symud yn awr i nodi a deall yr ysgogiadau allweddol ar draws y system, y cysylltiadau rhwng yr holl elfennau hynny a beth fydd rôl y VPU yn y dyfodol. Roedd yr uchelgais i'r VPU fod yn fwy na gweithgaredd a ariennir gan y Swyddfa Gartref yn glir ymhlith rhanddeiliaid, ond amlygodd cyfweliadau eu canfyddiadau bod angen diffinio'r cyfeiriad strategol ar gyfer y VPU yn gliriach. Tynnwyd sylw hefyd at yr angen i gyfleu'r cynllun hwn ar draws y system gyfan drwy gydol y cyfweliadau. Amlygwyd bod angen i ganolbwyntio ar waith atal sylfaenol gyda ffocws ar le yn bwysig.

> *Mae angen cynllun arnom. Pwy ydym ni? Beth yw 'ni', beth ydyn ni'n ei ddisgwyl o hyn yn hytrach na dim ond mwy o'r un peth? Felly mae llawer o bethau'n digwydd. Ond does gen i ddim dealltwriaeth glir eto o sut mae'n cyd-fynd a beth arall sydd angen ei wneud... yn fy marn i mae yna lawer o ymchwil, mae yna effaith gref iawn ar iechyd y cyhoedd, a sylfaen ymchwil gref iawn, mae yna lawer iawn o adroddiadau yn cael eu cyhoeddi, llawer o weminarau, sy'n wych. Pa wahaniaeth mae hyn yn ei wneud? Ond y rhan weithredol, rwy'n teimlo ei fod yn eithaf tawedog, mewn gwirionedd... Yr elfen 'yr hyn rydyn ni'n ei wneud' yw'r darn sy'n llai eglur. (AC, P8)*

> Mae gwir angen cynllun o sut rydym yn mynd i gyfathrebu ein gwaith yn y dyfodol, dros y flwyddyn nesaf, ac yn amlwg mae angen i hynny ddod o'r ochr weithredol... mae datblygu ein cynllun gwaith ar gyfer y misoedd nesaf yn bwysig iawn... mae angen sicrhau bod hynny'n cael ei benderfynu cymaint â phosibl. (Craidd, P3)

> *Rwy'n credu y dylen nhw rannu eu datblygiad, cynllunio eu cynllun cyflawni gydag aelodau'r VPU a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid fel y gallwn weld beth yw'r problemau a beth yw'r bylchau hefyd. Rwy'n credu bod angen cyflwyno ystod eang o hyfforddiant ar amrywiaeth, ar draws asiantaethau. Rwy'n credu bod hynny'n gwbl allweddol. (AC, P20)*

> *Mae'n cwmpasu nifer o feysydd trais... Dw i ddim yn glir weithiau beth yw ei ffocws. Rwy'n cael y teimlad mai trais ar y stryd ydyw, ond dwi ddim yn credu bod neb wedi dweud hynny mewn gwirionedd. Os byddwch chi'n gofyn y cwestiwn rwy'n credu y byddan nhw'n dweud pob math o drais. Ond byddai'n dda pe bai'r uned yn glir yn y dyfodol pa faes neu fethiant y mae'n ei dargedu. (AC, P6)*

> O ran y cyfeiriad, rwy'n credu ei bod yn bwysig ei bod yn pennu'r weledigaeth yn gyflym iawn. (AC, P22)

Adleisiwyd y canfyddiadau hyn yn ystod y gweithdy ymgysylltu â rhanddeiliaid. Roedd yr heriau penodol a roddwyd ar nodiadau post-it rhithwir yn cynnwys:

- Mae'r VPU yn fach a byddai'n elwa o ehangu mewn meysydd penodol o ran arbenigedd pwnc;
- Mae yna ddiffyg trefn lywodraethu glir - sut mae'r VPU yn cysylltu â strwythurau eraill, e.e. byrddau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, IOM Cymru, byrddau gwasanaeth cyhoeddus, bwrdd rhaglen glasbrint, ac ati;
- Mae'r VPU yn hysbysebu ei bod yn ymdrin â phob math o drais, ond ymddengys ei fod yn canolbwyntio mwy ar drais stryd. Nid yw'n glir weithiau beth yw'r ffocws;
- Tirwedd data eang - mae nodi'r hyn sy'n bwysig a'r hyn sy'n ofynnol yn broses gymhleth.

### Cyllid a Chynaliadwyedd

Disgrifiodd aelodau craidd a chysylltiedig sut roedd natur tymor byr cyllid y VPU yn her, yn benodol o ran creu newid tymor hir a datblygu perthnasoedd ac ymddiriedaeth gyda phartneriaid.

> *Mae'n beryglus pan na fydd arian wedi'i gadarnhau ddeufis neu dri mis ymlaen llaw... mae hynny'n cael effaith ar hirhoedledd y rhaglenni sydd wedi'u hariannu drwy'r VPU, ymddiriedaeth a hyder i'ch ymgorffori chi yn eu gwaith neu eu prosesau, heb wybod a fyddwch chi yno ymhen ychydig fisoedd. (Craidd, P15)*

> *Byddwn i wedi hoffi bod wedi gallu seilio llawer o'n gwaith ar yr hyn yr oedd y VPU yn ei wneud ond rwyf braidd yn amharod i wneud hynny. Rhag ofn ein bod ni 12 mis yn ddiweddarach ac yn gorfod ystyried dechrau eto...mae'r ffaith efallai na fydd y VPU yma ymhen 14 mis yn peri ychydig o bryder o ran parhad busnes. (AC, P22)*

> Pan fyddwn ni'n gweithio gyda thrawma, pan fyddwn ni'n gweithio gydag unigolion sydd wedi'u hamgylchynu â gwahanol fathau o gam-drin, neu ymddygiad hanesyddol pan oeddent yn tyfu i fyny, yna mae'n cymryd amser i'r newid hwnnw fwrw gwreiddiau, ac i ddatblygu perthnasoedd er mwyn gallu gwneud y newidiadau hynny'n effeithiol. Ac felly yn y pen draw, byddem am gael cyllid am gyfnod hwy o amser, fel y gallwch barhau i esblygu y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw o 12 mis, oherwydd rydych chi bron â chyrraedd rhyw bwynt ac yna'n meddwl bod angen i ni ddirwyn i ben i ryw raddau. Gorau po hwyaf yw'r cyfnod cyllido. (AC, P18)

Adleisiwyd y canfyddiadau hyn yn y gweithdy i randdeiliaid, lle yr amlygwyd y diffyg cyllid drwy gydol y trafodaethau'n ymwneud â rhwystrau a heriau. Mae nifer o enghreifftiau sydd wedi'u cynnwys yn y nodiadau post-it rhithwir i'w gweld isod:

- Diffyg cyllid hirdymor. Nid yw newid systemau cyfan yn digwydd dros nos!
- Diffyg cyllid/adnodd i gyfrannu'n ystyrlon yn ychwanegol at y 'swydd bob dydd';
- Cyllidwyr/comisiynwyr ddim yn cydnabod yr angen i fuddsoddi'n iawn;
- Ar hyn o bryd mae cyllid Y VPU yn canolbwyntio ar Dde Cymru, mae angen deall pa gyfleoedd cyllido ar y cyd sydd ar gael ac mae angen i'r rheini fod yn dryloyw ac yn hawdd eu canfod/cyfarwyddo;
- Dod â chyllid i ben cyn i newid gael ei ymgorffori'n llawn;
- Cyllid tymor byr - gall fod yn niweidiol yn hytrach na blaengar a defnyddiol, yn enwedig mewn perthynas â mecanweithiau cymorth e.e. rhoi cefnogaeth i berson agored i niwed dros gyfnod byr ac yna tynnu'n ôl sy'n gwneud iddynt deimlo'n ynysig;
- Cyllid ar gyfer arloesi digidol ar gyfer prosiectau cydweithredol ar raddfa fawr;
- Adnodd ar gyfer prosiectau ar y cyd.

Er gwaethaf yr heriau sy'n gysylltiedig â natur tymor byr y cyllid, roedd llawer o aelodau craidd yn teimlo y gellid cynnal dull iechyd y cyhoedd y VPU o atal trais yn y tymor hwy, o ganlyniad i'r gwaith ar newid ar lefel system.

*Mae angen parhau â dull gweithredu'r VPU... yn bendant. Felly y dull iechyd y cyhoedd hwn o atal trais, ac rydych chi wedi'i weld eleni gyda Chymorth i Ferched Cymru, rydyn ni wedi eu cefnogi i ddatblygu glasbrint ar gyfer atal trais yn erbyn menywod. Ac mae hynny'n canolbwyntio'n sylweddol ar ddull iechyd y cyhoedd. Ac mae hynny fel galwad i Gymru i fabwysiadu'r dull hwn mewn polisïau atal. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn bod hynny'n cael ei gynnal, oherwydd rydym eisoes yn dechrau gweld rhywfaint o newid go iawn. (Craidd, P3)*

Er bod llawer o'r rhanddeiliaid yn hyderus y byddai mabwysiadu dull iechyd y cyhoedd o atal trais yn arwain at newid tymor hwy, amlygodd un aelod craidd y byddai gallu'r VPU i ysgogi newid yn llai effeithiol heb fuddsoddiad hirdymor. Yma, nodwyd, er bod sefydliadau wedi buddsoddi amser staff yn y VPU hyd yma, roedd angen ymrwymiad ariannol i sicrhau sefydlogrwydd y VPU yn y dyfodol. Byddai cyllid o'r fath yn sicrhau bod gan y VPU adnoddau digonol a bod rolau staff yn cael eu dyrannu ar sail amser llawn, er mwyn canolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau'r VPU ac yn y pen draw sicrhau'r canlyniadau a'r effaith fwyaf posibl.

*Rwyf wedi gweithio allan ein bod wedi gwario tua £450,000 ar staff, ond rydym yn cael buddsoddiad gwerth £1.2 miliwn gan sefydliadau eraill. Felly byddwn i'n dweud o ran cynaliadwyedd, rydyn ni eisoes wedi cymryd rhai camau yn hynny o beth... Felly pe bai'r arian yn dod i ben, byddai'n bosib parhau â'r VPU heb y grant, ond yn amlwg byddai'n llai effeithiol, oherwydd rydyn ni'n gwybod y byddai ein gallu i gomisiynu'n cael ei leihau. A byddai'n llawer llai o ran maint, heb gymaint yn gweithio bob dydd iddyn nhw... hynny yw, mae £400,000 ar staff yn swm pitw o ran strwythur yr uned, mae'n nesaf peth i ddim a dweud y gwir, yn enwedig pan rydyn ni'n ceisio gwneud gwaith ledled Cymru. (Craidd, P1)*

Roedd llawer o randdeiliaid yn cydnabod pwysigrwydd ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer cyllid a chynaliadwyedd tymor hwy ac, yn hanfodol, yn cydnabod eu rôl a'u cyfrifoldeb o fewn hyn. Roedd hyn yn cynnwys nodi ffrydiau cyllid amgen a galluogi gwasanaethau i weithredu'r model VPU ar draws eu holl weithgaredd, waeth beth oedd y ffynhonnell gyllido.

*Rhywbeth yr ydym am weithio tuag ato eleni fyddai cael mwy o gynaliadwyedd o ran ein cyllid ac edrych ar ffynonellau cyllid eraill, felly bydd hynny'n ddiddorol. Ond rwyf wedi gweld bod Cymru, a gweithio yng Nghymru, yn amgylchedd sy'n hwyluso'r agenda hon yn fawr. (Craidd, P19)*

*Un o'r heriau mawr i ni, yn fy marn i, pe bai'r cyllid yn lleihau neu'n diflannu, yw'r gallu i gomisiynu gwasanaethau'n uniongyrchol, ond rydyn ni'n gweithio'n agos iawn â'r gwasanaethau, ac rwy'n credu bod angen i ni i adeiladu pontydd cryfach gyda nhw, gallwn eu helpu i wario [eu cyllid] mewn ffordd wedi'i thargedu'n benodol tuag at atal trais. (Craidd, P1)*

*Rydym yn ymwybodol iawn bod y cyllid yn gyllid tymor byr, ac yn meddwl yn eithaf strategol am sut i brofi'r model a bod yn gynaliadwy yn y tymor hwy a meddwl sut mae modd cael gafael ar y cyllid er mwyn cael y sefydlogrwydd hwnnw i gynllunio ymhellach i'r dyfodol. (AC, P2)*

*Un o'r pethau maen nhw wedi bod yn ystyried ei wneud yw cael yr holl asiantaethau yng Nghymru, gan gynnwys llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, plismona, ac ati, i gyfrannu at gyllid a chynaliadwyedd y VPU. Fel y gwyddom, y broblem yw bod cyllidebau'r sector cyhoeddus*

*yn dynn iawn, iawn ar hyn o bryd, ac mae effaith delio â'r pandemig yn debygol o olygu y bydd hynny'n parhau am dipyn eto. (AC, P9)*

*Rwy'n credu mai'r model gorau fyddai rhyw fath o gyllid sy'n cael ei rannu â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu neu gyda'r partïon â diddordeb. Felly dwi'n meddwl bod y pethau hyn bob amser yn anodd eu gwerthu pan fyddan nhw mor strategol... dyma ryw fath o ganlyniad tymor byr, cael pobl i'r llys, siarad â'r heddlu ac ati, ond y prawf mwyaf gyda llawer o broblemau yw ymhen 10 mlynedd, a ydyn nhw yn y carchar, neu a ydyn nhw'n gweithio?... Rwy'n credu bod cyfiawnhad dros gadw'r peth i fynd. Rwy'n credu bod rhyw fath o angen i'r Bwrdd Iechyd a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i ddal ati. (AC, P21)*

Dim ond nifer fach na wnaethant ddisgrifio cynlluniau neu uchelgeisiau penodol i ymchwilio i gyfleoedd cyllido. Roedd un sylw yn y gweithdy rhanddeiliaid hefyd yn adlewyrchu hyn, lle mai canlyniad tymor canolig y VPU oedd bod 'y rhaglen addysg wedi'i diogelu gyda sicrwydd y bydd cyllid ar gael' (gan gyfeirio at Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan). Mae'r sylwadau hyn yn awgrymu bod lleiafrif o'r aelodau yn teimlo mai cyfrifoldeb y VPU yw sicrhau cyllid tymor hwy yn y dyfodol a sefydlu ei chynaliadwyedd.

*Daliwch ati gyda'r gwaith da, mae fel peiriant slic. Rwy'n credu bod angen am bopeth y maen nhw'n sefyll drosto, bydd ganddyn nhw'r holl bobl iawn o amgylch y bwrdd o ran yr haen uchaf. Yn weithredol, yn strategol. Ie, rwy'n credu eu bod nhw'n dda o ran hynny. (AC, P12)*

*Rydyn ni'n... croesi ein bysedd ac yn gobeithio bod y Swyddfa Gartref yn credu bod hwn yn dal i fod yn syniad da. (AC, P8)*

Disgrifiodd rhai aelodau cyswllt yr angen i'r VPU edrych y tu hwnt i'r cyllid tymor byr, nodi nodau strategol tymor hwy a nodi ysgogwyr ar gyfer cynaliadwyedd tymor hwy. Amlygwyd pwysigrwydd sefydlogrwydd mewn nifer o gyfweliadau.

*Rwy'n credu y dylem roi'r gorau i edrych ar yr un pot bob tro a dechrau manteisio ar y sgyrsiau ehangach. Ac eto, nid yw'n ymwneud â mynd â'ch cap yn eich llaw yn gyson, nid yw'r Llywodraeth yn mynd i roi unrhyw beth i chi. Mae'n ymwneud yn fwy â sut rydyn ni'n ymgorffori hyn, i gydnabod blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref, yr hyn rydyn ni i gyd yn ceisio ymdrechu i'w wneud? ... Ond mewn gwirionedd, mae hyn yn ymwneud yn llai â chael arian, mae'n ymwneud yn fwy â dweud 'mae angen i ni newid y ffordd rydyn ni'n gweithredu'... mae hyn yn rhywbeth y bydden ni eisiau ei wneud gyda [Cyllid y Swyddfa Gartref] neu hebddo. A dyna beth mae'n rhaid i ni ei benderfynu, sef sut y byddech chi'n gwneud hynny. (AC, P8)*

*Un o'r ysgogwyr fydd parhau i ddefnyddio dull iechyd y cyhoedd, sicrhau bod cyfeiriad strategol y VPU yn fwy hirdymor, hyd yn oed os nad yw'r cyllid yno. Felly byddai'n braf gweld bod rhywfaint o drefniadau wrth gefn o ran y Llywodraeth neu bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau â rhywfaint o'r gwaith os bydd y VPU yn dod i ben ar ryw adeg. (AC, P22)*

*Oni bai eich bod yn cyrraedd y sefyllfa lle mae gennych rywfaint o sefydlogrwydd yn y tîm... ac maen nhw yno am 3, 4, 5 mlynedd, yn lle 12 mis, dwy flynedd o bosib. Dydych chi byth yn cyrraedd y cam perfformio hwnnw mewn gwirionedd. Ond er mwyn dadlau dros eich parhad, mae'n rhaid i chi gyrraedd y cam perfformio hwnnw. Fel arall, mae pobl yn meddwl wel, beth ydych chi'n ei gyflawni mewn gwirionedd? Ac a allem wneud hebddo? (AC, P9)*

## 3.5 Bylchau

Disgrifiodd nifer o randdeiliaid eu barn ynghylch meysydd y dylai'r VPU ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol. Amlygwyd yr angen i ganolbwyntio ar gam-drin domestig, gydag un rhanddeiliad yn awgrymu y gallai'r VPU ddatblygu gwaith gyda chyflawnwyr (amlygodd y rhanddeiliad hwn y gallai'r VPU fod yn ystyried hyn eisoes, ond nid oedd yn ymwybodol o unrhyw sgyrsiau ar y pwnc hwn). Disgrifiodd rhanddeiliaid eraill yr angen i ganolbwyntio ar waith allgymorth, ymgysylltu â chymunedau a chefnogi pobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n trosglwyddo o'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i'r Gwasanaeth Prawf. Tynnwyd sylw hefyd at yr angen i barhau i gyflwyno hyfforddiant ar ragfarn anymwybodol a normaleiddio ymhlith partneriaid VPU.

> *O edrych ar rai o'r bylchau mewn gwasanaethau y gall y VPU eu llenwi o bosibl, efallai mai Cyfiawnder Ieuenctid yw'r cyswllt hwnnw rhwng pobl ifanc 17 i 19 oed wrth iddynt drosglwyddo rhyngom ni a'r gwasanaeth prawf, neu ar ôl cwblhau gorchymyn, ond bod ganddynt batrwm o drais o hyd, gallai hynny fod yn faes i'w ystyried. Felly os gallwn edrych ar rai o'r prosiectau hyn a'u cael i weithredu fel peilot, ac yna ar ryw adeg ystyried eu prif ffrydio... a chysylltiadau cryfach â'r Bwrdd Rheoli Cyfiawnder Ieuenctid hefyd. Nid wyf yn siŵr ai'r bwrdd rheoli cyfiawnder, neu'r VPU sydd ddim yn deall hyn yn iawn. Ond dwi'n meddwl ar y lefel strategol honno, mae angen iddyn nhw ddod i gysylltiad â'i gliydd yn amlach. (AC, P20)*

> *Mae gwaith allgymorth yn wirioneddol effeithiol o ran dod â phobl ynghyd, ac edrych ar ailsefydlu ac ad-droseddwyr... gweithio gyda chyflawnwyr cam-drin domestig. Ac rwy'n credu, mae'n debyg y gallem ni gael mwy o ddylanwad yno hefyd nag a wnawn ar hyn o bryd. Dim ond edrych ar sut y gallwn gefnogi cyflawnwyr gyda'r math hwnnw o adsefydlu hefyd. (AC, P18)*

Adleisiwyd y canfyddiadau hyn hefyd yn ystod y digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid, lle yr amlygwyd yr angen i ymgysylltu'n well â chymunedau a'r cyhoedd. Er bod rhai enghreifftiau da o ymgysylltu â'r gymuned yn amlwg, teimlwyd nad oedd hyn o reidrwydd yn adlewyrchu'r cymunedau hynny yr oedd trais yn effeithio'n fwy arnynt nag eraill. Cydnabuwyd pwysigrwydd cofnodi lleisiau dioddefwyr a goroeswyr. Amlygwyd y canfyddiadau hyn ymhellach yn adroddiad gwerthuso WVSAS, gyda 63.2% (n=24/38) o ymatebwyr yn cytuno bod y VPU yn ymgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach, gan gynnwys pobl ifanc, yn ei waith (dewisodd 12 ymatebydd yr ateb “ddim yn gwybod”). Ymhlith y gweithgareddau eraill a nodwyd yn ystod y gweithdy rhanddeiliaid roedd y canlynol:

- Cynnydd mewn ymyriadau mewn ysbytai ledled Cymru, yn tyfu bob blwyddyn;
- Datblygu canllawiau a mapio gwasanaethau i fynd i'r afael â materion sy'n dod i'r amlwg fel camfanteisio ar blant a chaethwasiaeth fodern. Cynorthwyo i safoni'r ymateb ledled Cymru;
- Canolbwyntio ar drais cudd i alluogi'r rhai sy'n dioddef anfanteision lluosog i ddod o hyd i gymorth a chefnogaeth;
- Cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu model diogel i blant yn unol â'r Glasbrint;
- Cynnydd yn argaeledd rhaglenni ymyrraeth gynnar ar newid ymddygiad i gyflawnwyr;
- Cynnydd yn yr adnoddau ar gyfer gwasanaethau brys a gwasanaethau cymorth ac adrodd amdanynt ar gyfer pob math o drais;
- Cysylltu â gwaith i ddatblygu Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid a rôl/dylanwad VPU i lywio gweithgaredd.

Yn ystod y gweithdy, gofynnwyd i randdeiliaid hefyd am eu barn ynghylch a oedd angen i asiantaethau o fewn y VPU ymgysylltu mwy, gyda rhai yn tynnu sylw at heriau o ran ymgysylltu'n gyson â phartneriaid. Amlygwyd y bylchau canlynol:

- Llwybr Anhwylder Personoliaeth i Droseddwyr (yn rhychwantu'r GIG a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM);
- Cymorth iechyd meddwl a chwnsela ar gyfer trawma;
- Tai;
- Cynrychiolaeth o'r sector addysg (prif ffrwd a'r rhai sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r brif ffrwd);
- Straen Trawmatig Cymru;
- Gwell cysylltiadau â thimau diogelu a Thimau Cymorth Cynnar ehangach (nid Caerdydd yn unig);
- Gweithio gyda'r GIG i ddiffinio eu rôl wrth atal trais;
- Gwasanaethau cymorth Cyffuriau ac Alcohol;
- Arweinydd diogelu amser llawn a throseddwyr ifanc;
- Meddygon teulu a mân anafiadau - yn allweddol o ran nodi rhai anafiadau caled a llai difrifol cudd a all arwain at fwy o niwed;
- Gwasanaeth Ambiwlans Cymru;
- Gwasanaethau Cymdeithasol.

### Dull Cymru Gyfan o Atal Trais

Yn y gwerthusiad o systemau cyfan, disgrifiodd llawer o randdeiliaid uchelgeisiau'r VPU i weithio y tu hwnt i Dde Cymru, gan dynnu sylw at eu canfyddiadau o ran y dirwedd ledled Cymru, a'r heriau a'r cyfleoedd i ehangu'r ffocws. Disgrifiodd rhai aelodau sut roedd gwaith gwych yn digwydd ledled Cymru, a bod hyn wedi'i ysgogi drwy gefnogaeth y VPU.

> *Er bod y VPU's wedi dod â'r rhwydwaith hwnnw at ei gilydd...yn sicr mae yna ddigon o groesgyffwrdd ac arferion da yr ydym wedi eu gweld ac fe wnaethom geisio cwrdd y tu allan i'n cyfarfodydd fel cymheiriaid i drafod y gwaith. Ac rwy'n credu y bu rhywfaint o fudd yn hynny, yn enwedig i Ogledd Cymru. A dechreuodd fabwysiadu peth o'n gwaith hefyd, mae'r VPU wedi bod yn gatalydd ar gyfer hynny. (AC, P22)*

Er bod rhai aelodau wedi disgrifio eu barn ynghylch sut roedd y ffaith bod y cyllid yn canolbwyntio ar Dde Cymru yn cyfyngu ar y gallu i ehangu cyd-destun y gweithgaredd, disgrifiodd llawer fod angen dull mwy cyson a chydgysylltiedig. Amlygwyd heriau o ran yr angen am fuddsoddiad ychwanegol, trosoledd cyfyngedig a gwrthwynebiad i newid fel rhwystrau posibl i ehangu ffocws a/neu weithgaredd VPU yn gyson ledled Cymru. Roedd teimlad y byddai'r VPU, heb fuddsoddiad priodol, yn parhau i chwarae rôl eiriolaeth a byddai hyn yn cyfyngu ar y gallu i weithredu dull iechyd y cyhoedd o atal trais ledled Cymru.

> *Mae yna lawer o raglenni cyfatebol eraill ledled Cymru ble y byddai angen i bawb weithio gyda'i gilydd, er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio lansio strategaeth atal... rydyn ni eisoes yn gwneud llawer o waith ledled Cymru, yn enwedig y strategaethau iechyd y cyhoedd, rydyn ni'n Asiantaeth Genedlaethol, felly mae'r gwaith rydyn ni'n ei wneud yn bwysig. Ond o ran comisiynu, a'r pethau mwy ymarferol, ar hyn o bryd, yn ne Cymru yn unig mae hyn, felly rwy'n credu y byddwn yn chwilio am fuddsoddiad ychwanegol i geisio gwneud hynny, boed hynny ar ffurf nwyddau, ond gobeithio ar ffurf nwyddau yn ogystal â chyllid cyfalaf hefyd... byddai'n dda*

*cael cytundeb mwy cadarn gyda'r holl heddluoedd, er enghraifft, a chael staff yn gweithio'n agosach â'r awdurdodau lleol yn y byrddau iechyd ledled Cymru. (Craidd, P19)*

*Un o'r heriau, ac mae'n ymwneud yn rhannol, ond nid yn gyfan gwbl, â COVID yw cryfder diogelwch cymunedol yng Nghymru, hynny yw, mae'n amrywiol iawn, iawn. Felly, wrth gwrs, yn enwedig y tu allan i Dde Cymru, lle nad ydym yn gwneud hyn yn uniongyrchol, rydym yn dibynnu gryn dipyn ar bartneriaethau lleol. Maen nhw'n amrywiol…. Rwy'n credu, hefyd, yn hytrach na dewis partneriaid neu asiantaethau, rwy'n credu bod angen i ni geisio gweithio'n fwy effeithiol. (Craidd, P1)*


*Felly mae yna bethau gwych yn digwydd. I fyny yng Ngogledd Cymru. Rwy'n gwybod Heddlu Gogledd Cymru yn gwneud llawer o waith fel gwaith ar linellau cyffuriau ac atal, yn enwedig gydag ysgolion...dwi ddim yn ymwybodol iawn o unrhyw werthusiad o'r gwaith hwnnw. Ond rwy'n gwybod eu bod yn teimlo'n eithaf angerddol am y peth. (Craidd, P3)*

*Rwy'n credu ein bod ni'n awyddus iawn, er bod y rhaglen wedi'i lleoli [wedi'i hariannu] yn Ne Cymru, bod modd cyffredinoli'r buddion ehangach ar draws Cymru, ac roeddem yn wirioneddol awyddus i Gymru gael un o'r VPUs oherwydd y ffordd wahanol o weithio, ac yn enwedig o amgylch y dirwedd ddatganoledig, a all fod yn eithaf cymhleth ac nid yw Llywodraeth y DU bob amser yn ei ddeall, dros y ffin felly ie, rydyn ni'n falch iawn. (AC, P2)*

## 4. Trawsnewid Gofal: Dull Systemau Cyfan

Mae'n amlwg bod y VPU wedi buddsoddi adnoddau ac arbenigedd i sefydlu partneriaethau a rhwydweithiau effeithiol ar draws ystod o asiantaethau perthnasol. Mae'r VPU yn dylanwadu ar newid cynaliadwy drwy ymgorffori dull iechyd y cyhoedd o atal trais ar draws y system sy'n mynd y tu hwnt i rannu arfer gorau neu ledaenu'r dystiolaeth orau. Mae'r VPU wrthi'n nodi bylchau ac achosion o ddyblygu ar draws y system, ac yn datblygu ymateb effeithiol i fynd i'r afael â hyn. Mae rhanddeiliaid yn disgrifio sut mae'r VPU wedi arwain at lai o weithio mewn seilos, gwell cyfathrebu rhwng partneriaid a llai o ddyblygu ymdrech. Awgryma Egan et al (2019a) y gall mapiau systemau roi persbectif ehangach a all lywio dealltwriaeth a'r camau nesaf. Datblygwyd map systemau ar gyfer VPU Cymru i ddangos sut mae'r gwahanol bobl, gwasanaethau, sefydliadau, gweithgareddau a chanlyniadau yn rhyng-gysylltu â'i gilydd ac yn dylanwadu ar ei gilydd. Ar hyn o bryd, mae'r map yn cynrychioli gweithgaredd yn Ne Cymru yn bennaf, gan gydnabod yr uchelgeisiau ledled Cymru ar gyfer y VPU.

# Map Systemau VPU Cymru



O ran canlyniadau, roedd yn amlwg bod partneriaid yn gallu dangos tystiolaeth o gyfeiriad y VPU ac effeithiau hirdymor a gwerth cymdeithasol cysylltiedig gweithgareddau atal trais. Defnyddiwyd egwyddorion allweddol dull system gyfan i fynd i'r afael â chanlyniadau iechyd y cyhoedd (fel y'u diffinnir gan Bagnall, 2019; NICE, 2010) fel fframwaith i asesu cynnydd cyfredol y VPU tuag at ddull system gyfan, a nodi bylchau ac argymhellion.

Adnabod system: *"Rwy'n credu ein bod ni eisoes wedi gwneud newid mawr o ran newid y system... rwy'n credu ein bod eisoes wedi llwyddo i gymryd camau breision yn y maes hwnnw".*

Roedd yr holl randdeiliaid yn cydnabod sut roedd eu rôl a'u hymwneud â'r VPU yn rhan o system ehangach a oedd yn cynnwys dull iechyd y cyhoedd o atal trais. Cydnabuwyd natur esblygol y system hon o ran y partneriaethau, y rhwydweithiau a'r dulliau a hyrwyddir gan y VPU. Ni ddiffiniwyd ffiniau'r system, ond roedd y cyfweliadau'n adlewyrchu gwybodaeth a phrofiadau rhanddeiliaid o'r system yn Ne Cymru yn bennaf, yn hytrach nag ôl troed Cymru gyfan. Disgrifiodd nifer o bartneriaid yr heriau sy'n gysylltiedig â chystadlu â sefydliadau eraill am gyllid; pryderon ynghylch cynaliadwyedd a phwysigrwydd sicrhau cyllid yn y dyfodol, a allai rwystro eu llesteirio rhag ymgysylltu'n llawn.

**Argymhelliad: Cefnogi cydweithredu ar draws y system**

- Annog sefydliadau gwirfoddol a chymunedol i ysgrifennu ceisiadau ar y cyd er mwyn lleihau'r teimladau o gystadleuaeth rhyngddynt.

Meithrin gallu: *"Mae'r twf yng ngwybodaeth yr uned wedi golygu ein bod wedi gallu dod â gallu a chapasiti i feysydd gwaith eraill a bu hynny o gymorth i atal trais"*

Nod model y VPU yw meithrin ymwybyddiaeth o ddulliau iechyd y cyhoedd o atal trais yng Nghymru a chefnogi sefydliadau i fabwysiadu'r dull hwn. Darparwyd llawer o enghreifftiau lle roedd rhanddeiliaid wedi cyfrannu at a/neu wedi elwa o'r ffordd yr oedd y VPU wedi cryfhau capasiti ar draws sefydliadau. Teimlai'r rhanddeiliaid y gallai'r VPU gynyddu capasiti ymhellach ar draws systemau a rhwydweithiau'r VPU, yn enwedig o ran cefnogi datblygiad dulliau'n seiliedig ar le o atal trais ledled Cymru.

**Argymhelliad: Parhau i ddatblygu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth**

- Amlygwyd bod rôl y VPU o ran addysgu partneriaid yn allweddol i weithredu'r dull system gyfan. Cynnwys hyfforddiant ar ragfarn anymwybodol a normaleiddio i gynorthwyo partneriaid i ddeall ardaloedd lleol a phwysigrwydd, er enghraifft, hunaniaethau diwylliannol a gwendidau cysylltiedig pobl ifanc sy'n troseddu.

Creadigrwydd ac arloesedd: *"I mi, un o'r pethau a oedd yn wahanol iawn, iawn oedd ein bod wedi cael ymarfer o amgylch y bwrdd fel tîm ar sut y byddem yn ymateb pe bai cynnydd mawr mewn troseddau cyllyll yn rhywle fel Caerdydd ac fe wnaeth pob un ohonom ddweud beth fydden ni'n ei wneud ac felly roedd yn ymarfer da iawn, oherwydd nid oedd gan lawer o ddarparwyr yn benodol wybodaeh fanwl am beth oedd y naill a'r llall yn ei wneud."*

Mae gan y VPU hanes o weithio'n greadigol ac yn arloesol i ddatblygu mentrau i atal trais, gan gynnwys mentrau ymyrraeth gynnar ac atal i ddarparu cefnogaeth ddwys wedi'i theilwra i bobl ifanc a'u teuluoedd, a thrwy ddulliau ehangach yn ymwneud ag ACEs a dulliau sy'n seiliedig ar drawma gan

gynnwys y Ganolfan Cymorth ACE[6], sydd wedi'i chynllunio i fynd i'r afael ag ACEs a'u hatal. Mae'r VPU yn adeiladu ar y cryfderau presennol hyn ac yn parhau i ysgogi dulliau creadigol ac arloesol o atal trais. Disgrifiodd y rhanddeiliaid enghreifftiau lle roedd y VPU wedi nodi problem neu fwlch ac wedi gweithio gyda phartneriaid perthnasol i gyflwyno ymateb priodol, megis o safbwynt gorfodi rheolau mewnfudo, neu ymgysylltu â phartneriaid ynghylch cam-drin plant yn rhywiol. Roedd y rhai a gymerodd ran yn edrych yn gadarnhaol iawn ar y 'gweithgaredd digwyddiadau tyngedfennol'; disgrifiodd un person sut roedd y gwaith hwn ar sail senario wedi creu argraff arno, gan ei fod yn rhywbeth a weithredwyd ganddo yn y gwasanaeth carchardai a phrawf.

Er bod y VPU yn hwyluso rhwydweithiau a phartneriaethau â chymunedau, prin oedd y dystiolaeth am y mecanweithiau sydd ar gael i gefnogi dulliau creadigol neu arloesol i fynd i'r afael â materion ar lefelau lleol (mae'r argymhellion a gyflwynir yn y penawdau 'Ymgysylltu' ac 'Meithrin Gallu' hefyd yn berthnasol yma).

**Argymhelliad: Ymgysylltu â chymunedau ar lawr gwlad er mwyn meithrin arloesedd**

- Llywio blaenoriaethau a datblygu dull wedi'i arwain gan le drwy wella ymgysylltiad â chymunedau (gan gynnwys grwpiau cymunedol, plant, pobl ifanc a theuluoedd) i nodi cyfleoedd i bersonoli gwasanaethau o fewn ardaloedd lle ceir problemau. Dylai'r ymgysylltiad hwn ganolbwyntio ar ddatblygu a gweithredu dulliau newydd i fynd i'r afael ag atal trais yn eu cymunedau. Dylai'r blaenoriaethau a'r dulliau fod yn gyson â'r anghenion a'r asedau mewn cymunedau.

**Perthnasoedd:** *"Yn ein profiad ni, anaml y mae sefydliadau'n cael eu dwyn ynghyd, yn enwedig o ran trefnu cyfarfodydd sy'n dwyn ynghyd ystod o bartneriaethau, gyda ffocws ar y gymuned a'r sector gwirfoddol, a hyrwyddwyr cymunedol"*

Disgrifiodd y rhanddeiliaid nifer o ffyrdd penodol a ddefnyddiwyd gan y VPU i ddatblygu a chynnal perthnasoedd ar draws y system. Er bod llawer o'r aelodau cyswllt wedi disgrifio bod ganddynt berthynas waith ffurfiol neu anffurfiol ag aelodau craidd cyn sefydlu'r VPU, nid oedd hyn yn wir am lawer ohonynt. Roedd y rhai a oedd ar y cyrion yn llai tebygol o fod â dealltwriaeth lawn o fodel a dull gweithredu'r VPU. Gwnaeth yr holl randdeiliaid sylwadau cadarnhaol am y ffyrdd yr oedd y VPU wedi bod yn rhagweithiol o ran cefnogi datblygiad perthnasoedd effeithiol ar draws ystod o bartneriaid amlasiantaeth. Nododd nifer o randdeiliaid fylchau gan awgrymu asiantaethau y gellid eu cynnwys fel aelodau cyswllt neu bartneriaid y VPU.

**Argymhellion: Adolygu a diffinio aelodaeth y VPU**

- Sicrhau bod gan bob aelod craidd a chysylltiedig rôl ddiffiniedig o ran eu cyfrifoldeb o fewn y VPU. Roedd rhai aelodau'n aneglur sut y gallent gyfrannu at gyfarfodydd. Annog yr aelodaeth i fod yn broses ddwyffordd ddwyochrog, lle mae pob aelod yn elwa o'r VPU a lle mae'r VPU yn elwa o'r holl aelodau.

[6] https://aceawarewales.com/about/

- Adolygu ac asesu aelodaeth gyfredol o'r VPU. Ystyried cynnwys cynrychiolaeth o'r asiantaethau a amlygwyd yn ystod cyfweliadau â rhanddeiliaid a'r gweithdy rhanddeiliaid (Cymorth Cynnar, Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Cymorth Cyffuriau ac Alcohol, Llwybr Anhwylder Personoliaeth Troseddwyr [yn rhychwantu'r GIG a Gwasanaeth Prawf a Charchardai EM], Cymorth Iechyd Meddwl a Chynghorwyr Trawma, Tai, y sector addysg [prif ffrwd a'r rhai sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r brif ffrwd], Straen Trawmatig Cymru, cysylltiadau ag adrannau diogelu a Thimau Cymorth Cynnar ehangach [nid Caerdydd yn unig], troseddwr amser-llawn a throseddu ieuenctid, meddygon teulu ac unedau mân anafiadau [sy'n allweddol o ran nodi anafiadau cudd caled a llai difrifol a all waethygu i achosi mwy o niwed] a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru).

## Ymgysylltu: *Symud y tu hwnt i 'ddull sy'n seiliedig ar le' tuag at 'ddull sy'n cael ei arwain gan le'*

Canfu'r gwerthusiad enghreifftiau o arfer da mewn perthynas ag ymgysylltu â'r gymuned, ond prin oedd y dystiolaeth am y ffyrdd yr oedd pobl, sefydliadau a sectorau yn ymgysylltu ag aelodau o'r gymuned wrth ddatblygu a chyflwyno rhaglenni. Er bod ymgysylltu â'r gymuned ac allgymorth wedi'i ddisgrifio fel maes i ganolbwyntio arno yn y dyfodol, dylid ystyried cyfleoedd ar gyfer cyd-gynhyrchu a datblygu ymyriadau arloesol hefyd. Soniodd y rhanddeiliaid am yr angen i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth o amgylch yr hyn sy'n gweithio i atal trais, gan ragweld y byddai mwy o waith atal sylfaenol yn deilio o hynny.

**Argymhellion: Ymgysylltu ar llawr gwlad**

- Gweithio gyda chymunedau lleol i gydgynhyrchu ymyriadau atal trais, gan roi'r gorau i ddull 'o'r brig i lawr' i ymgysylltu'n fwy cydweithredol â grwpiau cymunedol lleol a'r rhai sy'n gweithio ar lawr gwlad, gan gynnwys pobl ifanc a theuluoedd y mae trais yn effeithio arnynt a/neu sydd mewn perygl o ddioddf trais.
- Sicrhau bod lleisiau dioddefwyr a goroeswyr yn cael eu cynnwys/arbenigwyr yn ôl profiad
- Canolbwyntio ar waith allgymorth ac ymgysylltu â chymunedau i gefnogi pobl ifanc yn well, er enghraifft, o'r cyfnod pontio o Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i'r Gwasanaeth Prawf.
- Cynnwys ffocws ar gyflawnwyr, cofnodi eu safbwyntiau a datblygu rhaglenni i leihau cyfnodau o ymddygiad treisgar sy'n cael ei ailadrodd.

## Cyfathrebu: *"Dw i ddim yn credu bod unrhyw ddiffyg cyfathrebu"*

Darparwyd llawer o enghreifftiau ynghylch sut y mae'r VPU yn cefnogi cyfathrebu rhwng sectorau a sefydliadau yn y system. Roedd mwyafrif aelodau'r VPU yn ymwybodol o uchelgeisiau cyffredinol yr uned ac roedd yn amlwg o'r enghreifftiau a roddwyd bod yr aelodau'n ymwybodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau yn hyn o beth. Mae'r dystiolaeth gref ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a rhwydweithiau hefyd yn ychwanegu at y dystiolaeth bod cyfathrebu rhwng sefydliadau yn cael ei gryfhau o ganlyniad i'r VPU. O safbwynt ymarferol, disgrifiodd llawer y cyfathrebu (e.e. yr adnoddau a'r wybodaeth a ddosbarthwyd) gan y VPU, er nad oedd pob un yn darllen y wybodaeth hon. Disgrifiodd nifer bod y gweminarau wedi cael croeso brwd. O ran cynllunio ar gyfer y dyfodol, disgrifiodd rhai rhanddeiliaid yr angen i sicrhau bod uchelgeisiau tymor hwy y VPU yn cael eu cyfleu i'r holl bartneriaid ar draws y system gyfan.

**Argymhellion: Ystyried dulliau cyfathrebu**

- Parhau i gynnal gweminarau a'u defnyddio fel cyfrwng i gyfleu gweithgaredd cyflawni a gwerthuso a chanlyniadau i bartneriaid.
- Ystyried dulliau amgen o gyflawni'r adroddiadau monitro; ymchwilio i sut y gellid cyfleu gwybodaeth yn fwy effeithiol i sicrhau bod yr holl bartneriaid nid yn unig yn derbyn y wybodaeth hon ond eu bod yn ei darllen a'i deall.

## Ymgorffori camau gweithredu a pholisïau

*"Dyma'r sefyllfa rwyf weisau bod ynddi, lle rydyn ni'n llawer mwy dylanwadol ar bolisi Llywodraeth Cymru, blaenoriaethau gwariant sy'n cael gwir effaith ar benderfyniadau mawr."*

Disgrifiodd aelodau'r VPU y ffyrdd yr oedd eu rôl fel aelodau craidd neu aelodau cyswllt wedi eu galluogi i ymgorffori dull iechyd y cyhoedd o atal trais ar draws eu sefydliadau, gyda llawer yn teimlo bod newid eisoes i'w weld yn y system. Cydnabu llawer o'r aelodau bod newid system yn fwy na rhannu arferion gorau a mynychu cyfarfodydd, bod newid system yn gofyn am feithrin gallu a chamau gweithredu gan bartneriaid i ysgogi gweithgaredd a sicrhau bod polisi yn bwrw gwreiddiau ar draws sefydliadau perthnasol. Roedd llawer yn cytuno bod hon yn broses sy'n esblygu a fydd yn cryfhau ac yn tyfu wrth i'r VPU ymsefydlu.

**Argymhellion: Mireinio a chyfleu cyfeiriad strategol y VPU**

- Datblygu cynllun clir ar gyfer cyfeiriad strategol uniongyrchol a thymor hwy y VPU a chyfathrebu hyn i'r holl bartneriaid ar draws y system. Gall hyn gynnwys eglurder ynghylch ymyriadau a ariennir gan y VPU, a gwybodaeth am sut y penderfynir ar hyn, o ran sylfaen dystiolaeth, gwerth am arian a chynaliadwyedd.
- Sicrhau bod yr agwedd weithredol ar y VPU wedi'i diffinio'n glir, gan dynnu sylw at gyflawniadau a swyddogaethau penodol y VPU. Sicrhau bod hyn yn cael ei gyfleu i bartneriaid ar draws y system, er mwyn sicrhau bod yr holl randdeiliaid a buddiolwyr yn ymwybodol o'u rôl yn y VPU, o safbwynt y system gyfan.
- Sicrhau bod trefniadau llywodraethu rhwng y VPU a strwythurau eraill yn glir e.e. byrddau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, IOM Cymru, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Bwrdd Rhaglen Glasbrint.
- Ymgysylltu â phartneriaid i sicrhau bod y VPU yn cael ei chynnwys ar agendâu polisi'r llywodraeth ar lefel uchel.
- Ehangu rhwydweithiau a phartneriaethau'r VPU y tu hwnt i Dde Cymru, gan sicrhau bod cyflawni gweithgaredd atal trais yn seiliedig ar ddull iechyd y cyhoedd a thystiolaeth. Ystyried gwahanol flaenoriaethau gwleidyddol a sicrhau bod hyn yn cael ei weithredu'n gyson ar draws y system.
- Cynnal archwiliad neu fapio partneriaethau a rhwydweithiau lleol ledled Cymru er mwyn nodi bylchau a chyfleoedd i lywio sut y gall y VPU ehangu ei darpariaeth a'i heffaith ledled Cymru.

## Cadarn a chynaliadwy: *"Mae'r ffaith na fydd y VPU yma o bosibl ymhen 14 mis yn peri ychydig o bryder i barhad busnes"*

Er bod y VPU yn ddibynnol ar gyllid allanol y Swyddfa Gartref ar hyn o bryd, disgrifiodd llawer o randdeiliaid eu huchelgeisiau i ddod yn endid cynaliadwy. Er bod llawer wedi disgrifio'r heriau sy'n gysylltiedig â chyllid tymor byr, roedd llawer yn cydnabod eu rôl a'u cyfrifoldeb o ran sicrhau bod dull iechyd y cyhoedd o atal trais yn cael ei ymgorffori ar draws y system gyfan. Darparwyd enghreifftiau lle y gallai'r VPU weithio gyda'r holl asiantaethau i ymgorffori'r dull hwn, waeth beth fo'u ffrwd cyllid, a ble y gallai'r VPU chwilio am gyfleoedd cyllido amgen. Disgrifiodd rhai aelodau eu pryderon am gynaliadwyedd ac roeddent yn ochelgar ynghylch meithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth gydag asiantaethau a chymunedau pe gallai'r VPU ddod i ben. Mae'r argymhellion i fireinio cyfeiriad strategol y VPU a chefnogi cydweithredu ar draws y system yn berthnasol yma a byddant yn cefnogi cynaliadwyedd sefydliadau'r trydydd sector.

## Arweinyddiaeth hwylusol: *"Nid adeiladu ymerodraeth ydym ni, mae'n dechrau drwy ganolbwyntio ar y nod o atal trais"*

Roedd yn amlwg o'r holl gyfweliadau bod y VPU wedi darparu arweinyddiaeth gref a chefnogaeth strategol. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu a gweithredu gweithgaredd atal trais sy'n dechrau creu newid ar draws y system gyfan. Mae datblygu'r dull 'pedair elfen' a'r model aelodaeth yn darparu fframwaith clir ar gyfer y VPU. Disgrifiodd yr aelodau sut roedd y VPU wedi mabwysiadu dull mwy detholus tuag at yr aelodaeth wrth i amser fynd yn ei flaen a bod y bylchau wedi dod yn glir. Roedd yn amlwg mai cenhadaeth y VPU oedd atal trais a hwyluso hyn ar draws y system gyfan heb boeni'n ormodol ynghylch pwy sy'n gwneud beth. Disgrifiodd rhai rhanddeiliaid heriau sy'n gysylltiedig â diddordebau sy'n cystadlu â'i gilydd a'r ffaith bod llai o adnoddau ar gael.

Er bod arweinyddiaeth y VPU yn gryf, dangosodd tystiolaeth o'r gwerthusiad hwn fod rhanddeiliaid yn tueddu i ganolbwyntio ar agweddau 'o'r brig i lawr' ar arweinyddiaeth y VPU. Gallai ystyriaethau ar gyfer y VPU yn y dyfodol gynnwys ymgorffori cydgynhyrchu ar lawr gwlad, sicrhau bod llais y gymuned yn cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar gyfeiriad y VPU, a symud y VPU o ddull seiliedig ar le i ddull sy'n cael ei arwain gan le.

**Argymhellion: Hwyluso ymarfer cydgynhyrchiol sy'n dylanwadu ar arweinyddiaeth**

- Adeiladu ar y mentrau ymgysylltu â'r gymuned i ganolbwyntio ar weithio ar lawr gwlad er mwyn cydgynhyrchu ymyriadau atal trais;
- Rhoi cyfleoedd i 'aelodau lleyg' gynrychioli llais y gymuned a dylanwadu ar gyfeiriad strategol a gweithredol y VPU;
- Sicrhau bod y gweithgaredd hwn yn cael ei fonitro a'i werthuso i ddangos effaith y cydgynhyrchu hwn ar gymunedau.

## Monitro a gwerthuso: *"Mae hynny'n lle unigryw iawn ac yn lle cyffrous iawn i fod oherwydd ein bod ni'n gweithio'n aml gyda phartneriaid academaidd ac mae gennym lawer o sgiliau yn ein tîm i wneud hynny, ond mae gennym lawer mwy o ddylanwad yn lleol oherwydd rydyn ni'n gallu llywio beth sy'n digwydd ar lawr gwlad"*

Mae'r VPU wedi ymrwymo i sicrhau bod gwaith cadw gwyliadwriaeth, ymchwil a gwerthuso trais yn sail i'r holl weithgaredd a chydnabuwyd hyn gan yr holl randdeiliaid. Mae'r VPU wedi buddsoddi

adnoddau a chapasiti i ddatblygu a lledaenu tystiolaeth ac mae wedi ymrwymo i ymgorffori ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn mentrau atal trais. Mae'r buddsoddiad yn WVSAS a'r VPET yn enghreifftiau o hyn. Mae nifer o argymhellion sy'n benodol i'r WVSAS wedi'u cynnwys yn adroddiad gwerthuso WVSAS ar wahân a dylid eu hystyried ochr yn ochr ag argymhellion y system gyfan.

**Argymhellion: Ymchwil, gwerthuso a monitro**

- Parhau i fesur canlyniadau i sicrhau bod y VPU yn gallu dangos tystiolaeth o gyfeiriad y sefydliad a'r effeithiau tymor hwy sy'n gysylltiedig â nodau ac amcanion trosfwaol y VPU. Myfyrio ar sut y mae'r rhain yn cyd-fynd â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a nodwyd gan y Swyddfa Gartref.
- Parhau i ymgorffori gwerthuso ar draws gweithgaredd y VPU ac ymchwilio i a yw/sut mae'r VPET wedi'i fabwysiadu a'i roi ar waith ar draws sefydliadau partner. Defnyddio'r dystiolaeth i ddeall beth sy'n gweithio i atal trais ac uwchraddio arfer gorau yn ogystal â nodi'r hyn nad yw'n gweithio'n effeithiol. Defnyddio'r dystiolaeth hon i lywio penderfyniadau cyllido ac i danategu gwaith y VPU a chyfleu hyn i bartneriaid VPU.
- Rhoi eglurder ynghylch rôl y VPU wrth reoli a choladu data. Ystyried datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng partneriaid sy'n manylu ar yr hyn y bydd y VPU yn ei wneud gydag unrhyw ddata y maent yn ei ddarparu a pham y gofynnir am hyn. Cyfleu pwrpas y dadansoddiad data a sut mae hyn yn helpu i lywio'r darlun ehangach o atal/gweithgareddau trais ledled Cymru.
- Alinio data i greu darlun o daith person ifanc drwy wahanol wasanaethau, gan ddeall cryfderau, bylchau a meysydd i'w datblygu (o ran gwasanaethau, agweddau a'r amgylchedd penodol).

# 5. Cyfeiriadau


Bagnall AC, Radley D, Jones R, Gately P, Nobles J, Van Dijk M, Blackshaw J, Montel S, Sahota P. (2019). Whole systems approaches to obesity and other complex public health challenges: a systematic review. BMC Public Health.

Egan M, McGill E, Er V, Cummins S, Lock K, Savona N, Marks D, Andreeva M, Petticrew M, Penney T, Anderson de Cuevas R, Orton L, Whitehead M, Popay J, de Vocht F, Meier P, Rutter H, Smith R. (2019a). NIHR SPHR Guidance on Systems Approaches to Local Public Health Evaluation. Part 1: Introducing Systems Thinking. Llundain; Ysgol Ymchwil Iechyd y Cyhoedd y Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Iechyd.

Egan M, McGill E, Penney T, Anderson de Cuevas R, Er V, Orton L, White M, Lock K, Cummins S, Savona N, Whitehead M, Popay J, Smith R, Meier P, De Vocht F, Marks D, Andreeva M, Rutter H, Petticrew M. (2019b). NIHR SPHR Guidance on Systems Approaches to Local Public Health Evaluation. Part 2: What to consider when planning a systems evaluation. Llundain; Ysgol Ymchwil Iechyd y Cyhoedd y Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Iechyd.

Garside R, Pearson M, Hunt H, Moxham T, Anderson R. (2010). Identifying the key elements and interactions of a whole system approach to obesity prevention. Caerwysg; Peninsula Technology Assessment Group (PenTAG).

Hunt H, Anderson R, Coelho H, Garside R, Bayliss S, Fry-Smith A. (2011). The effectiveness of Whole System Approaches to prevent obesity. Caerwysg; Peninsula Technology Assessment Group (PenTAG).

Kleinert S a Horton R. (2015). Rethinking and reframing obesity. Lancet. 2015; 385 (9985):2326–8.

Mabry P a Bures R. (2014). Systems science for obesity-related research questions: an introduction to the theme issue. American Journal of Public Health, 104 (7):1157–9.

MacLeod S, Cutmore M, Deoudes P, Brennan I. (2020). Violence Reduction Units – Impact Evaluation Feasibility Study. Llundain; Y Swyddfa Gartref.

Newbury A, Barton E, Snowdon L, Hopkins J. (2020). Understanding the Impact of COVID-19 on Violence and ACEs Experienced by Children and Young People in Wales. Adroddiad Interim. Caerdydd; Uned Atal Trais Cymru.

Pearson M, Garside R, Fry-Smith A, Bayliss S. (2011) Preventing obesity using a “whole system” approach at local and community level. Barriers and facilitators to effective whole system approaches. Caerwysg; Peninsula Technology Assessment Group (PenTAG).

Quigg Z, Timpson H, Newbury A, Butler N, Barton E, Snowdon L (2020). Violence Prevention Evaluation Toolkit. Lerpwl/Caerdydd; Sefydliad Iechyd y Cyhoedd, Uned Atal Trais Prifysgol John Moores Lerpwl / Cymru.

Rutter, H. (2011). Where next for obesity obesity? Lancet, 378 (9793):746–747

Timpson H, Harrison R, Bigland C, Butler N, Quigg Z. (2020). Gwerthusiad o'r Uned Atal Trais. Canfyddiadau Blwyddyn 1 (2019/20). Sefydliad Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol John Moores Lerpwl.

Y Sefydliad Cenedlaethol Dros Ragoriaeth Mewn Iechyd a Gofal (2010) Identifying the key elements and interactions of a whole system approach to obesity prevention. Golygwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol Dros Ragoriaeth Mewn Iechyd a Gofal Lludain; Peninsula Technology Assessment Group (PenTAG).

Uned Atal Trais Cymru
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT
PHW.ViolencePreventionUnit@wales.nhs.uk
02920 338450

Uned Atal Trais
Violence Prevention Unit